



Tudalen 5

SPORTS RELIEF



Tudalen 17

HELFA WYAU PASG



Tudalen 20

DATHLU'R DEUGAIN!

ECO'r Wyddfa

Rhif: 399
Mai 2012
Pris: 50c

Merched lleol yn cario'r Fflam Olympaidd

(..... a bachgen o Ysgol Brynrefail)

Braf gweld rhai o'n hardal yn cael y cyfle i wneud rhywbeth arbennig nad yw'n debyg o ddiwydd eto am nifer fawr o flynyddoedd. Ar ddydd llun, 28ain o Fai bydd y Fflam yn teithio drwy Wynedd, ac y mae dwy o ferched y fro wedi eu dewis i'w chario ym Mlaenau Ffestiniog ac yng Nghaernarfon. Bachgen o Ysgol Brynrefail yw David Rhys Owen Parry, a bydd yntau'n cario'r Fflam ar ddiwedd ei thaith yn ninas Bangor. Am fwy o'i hanes gweler tudalen Ysgol Brynrefail.

Cafodd Elin Catrin Owen o Lanrug ei henwebu gan yr Urdd am ei bod wedi gwneud cymaint o waith gwirfoddol yn y gymuned dros y dair mlynedd ddiwethaf gyda'r Urdd a Mudiad 5x60 sydd yn annog pobl ifanc i gadw'n heini a chymryd rhan mewn chwaraeon. Erbyn hyn, mae Elin wedi dysgu gymnasteg, dawn, pel rhwyd, hoci, dringo, golff, criced ac athletau ac wedi'i henwebu gan Ysgol Syr Hugh Owen i fod yn Lysgennad Ifanc Aur dros Wynedd.

Mae Elin ar hyn o bryd yn y chweched dosbarth yn Ysgol Syr Hugh Owen yn astudio Ffotograffiaeth, Cemeg ac Addysg Gorfforol ac yn

gobeithio mynd ymlaen i astudio Chwaraeon ym Mhrifysgol Caerfaddon eleni. Cyn hynny bydd Elin yn gwirfoddoli yng Ngemau Olympaidd Ysgolion yn Llundain ac yn arwain ei thim dawn yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nglynllifon.

Roedd Elin wedi gobeithio cario'r fflag drwy Gaernarfon neu Lanberis ond dewiswyd hi i wneud hyn drwy Flaenau Ffestiniog. Dywedodd "mae'n fraint i gael ei chario o gwbl a bydd yn rhywbeth y cofiaf ar hyd fy oes"

Llongyfarchiadau iddi a phob hwyl ar ei blwyddyn brysur ac i'r dyfodol.



Anna Williams o'r Waunfawr fydd un o'r rhai yn cario'r Fflam Olympaidd drwy dref Caernarfon. Mae Anna yn wreiddiol o Sweden; yn byw yng Nghymru ers 1987, ac wedi ymgartrefu yn y Waunfawr efo David, ei gwr a'r teulu. Mae erbyn hyn yn rhugl yn y Gymraeg.

Mae bellach yn Swyddog Garddio Bywyd Gwyllt gydag Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, a hi sy'n gyfrifol am drefnu

y gystadleuaeth flynyddol garddio bywyd gwyllt. Sefydlodd Glwb Natur yn y Waunfawr, a phedair blynedd yn ôl enillodd wobr genedlaethol a gyflwynwyd i'r Clwb gan y darlledwr Iolo Williams. Mae plant y Clwb bellach yn eu harddegau, ac yn gwneud gwaith cadwraeth dan arweiniad Anna yng ngwahanol warchodfeydd yr Ymddiriedolaeth.

Mae ei gwaith yn golygu ei bod mewn cyswllt rheolaidd â gwahanol ysgolion, ac ar hyn

o bryd mae'n cydweithio â staff, disgyblion a rhieni Ysgol Bontnewydd yn sefydlu gardd wyllt, pwll dwr a dôl.

Y llynedd, cerddodd hi a'i merch bedwar copa ar ddeg Eryri a chodi dros £500 tuag at elusennau..

Fe'i henwebwyd i gario'r fflam gan Kate Gibbs, cadeirydd Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, a hynny am ei hymroddiad i'w gwaith bob dydd a'i gwaith gwirfoddol sy'n ymestyniad o'i gwaith.

ECO'r Wyddfa

**RHIF 399
MAI 2012**
Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911
Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Straeon ac erthyglau
ar e-bost i
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com**

CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH

Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR

Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION

Eifion Roberts, Swŷ-y-Gwynt,
Llanberis (870740)
eifionroberts132@btinternet.com

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD BWNDELU

Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Swŷ-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Ffynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS SUL 20 Mai

Os gwelwch yn dda

Dyddiad Gosod

NOS IAU, 24 Mai

Sefydliad Coffa Llanrug
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU, 31 Mai

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU' RECO 2012

Rhifyn	Copi	Gosod	Plygu	Ble
Mehefin	20 Mai	24 Mai	31 Mai	Brynrefail
Gorffennaf	17 Mehefin	21 Mehefin	28 Mehefin	Bethel

LLYTHYRAU

Annwyl Ddarllenwyr,

Cynhaliwyd gweithdy gwerin hwyliog yn haul braf ddiwedd Mawrth yn yr Amgueddfa Lechi. Dyma oedd digwyddiad gyntaf cynllun Sesiwn Dros Gymru 2012 Clera yng Ngogledd Orllewin Cymru. Cafwyd sesiwn gloi fendigedig gyda phob grŵp yn dod ynghyd i gyd-chwarae yn ystafell y Caban sydd, fel mae'n digwydd, ag acwstics bendigedig!

Un byrdwn o gynllun Sesiwn Dros Gymru yw i annog a datblygu gweithgarwch gerddorol gymunedol anffurfiol a hynny trwy gyfrwng cerddoriaeth draddodiadol Gymreig.

Os hoffech roi tro arni, cynhelir dau weithdy pellach yn yr Amgueddfa Lechi, gyda'r nesaf ar Dydd Sul, 22ain Ebrill am 1pm-4.30pm. Y tiwtoriaid fydd Stephen Rees (sylfaen), Sioned Webb (canol) a Huw Roberts (uwch). Cost mynychu yw £7.50 i oedolion, £5 i blant, a £5 i deulu (1 oedolyn + plant). Bydd y gweithdy nesaf wedyn ar Dydd Sadwrn 19eg Mai am 1pm-4.30pm gyda'r tiwtoriaid Sioned Webb (sylfaen), Patrick Rimes (canol) a Stephen Rees (uwch). Nid oes angen profiad blaenorol o chwarae cerddoriaeth werin i fynychu.

Os am fanylion pellach neu i gofrestru cysylltwch â Catrin ar (01286) 831344 / catrin@sesiwn.com. Ceir holl fanylion y cynllun ar y wefan www.sesiwn.com

Catrin Meirion

Cydlynedd Gogledd Orllewin Cymru
Sesiwn Dros Gymru 2012
Gweithdai Gwerin CLERA

RSPB

Hoffech chi helpu pobl i dreulio amser gyda bywyd gwyllt Portmeirion? Mae RSPB Cymru yn galw am wirfoddolwyr i fod yn helpwyr cyfeillgar yr RSPB yng Nghoedwig Portmeirion. Mi fydd RSPB Cymru wedi ei leoli ym Mhortmeirion - y pentref enwog ar steil Eidalaid - o fis Ebrill 1af i fis Medi 30ain 2012 i ddangos y goedwig ryfeddol ar y safle i ymwelwyr.

Mae Portmeirion wedi ei leoli o fewn 70 erw o goedwig gymysg ac mae'n gartref i gasgliad o wahanol rywogaethau. Fel rhan o'r teithiau cerdded, fe gaiff ymwelwyr ddysgu am y coed, planhigion ac adar y mae'r goedwig yn gartref iddynt, a gwyllo adar y goedwig mewn ardal bwydo bwrpasol. Mae yna gyfle i weld gweilch yn pysgota ar yr aber, a chrëyr bach ac adar hirgoes ar waith. Meddai Swyddog Amser i Fyd Natur, Kim Boccato:

'Rydym yn chwilio am bobl o bob oedran a chefnidir i helpu gyda'r prosiect, ac mae'n gyfle gwych i ymuno a gwneud gwahaniaeth.' Fel un o'n gwirfoddolwyr mi fyddwch yn helpu pobl cael y mwyaf o'u hymweliad wrth helpu ar ein teithiau cerdded tywysedig a rhoi gwybodaeth am fywyd gwyllt Portmeirion ag RSPB Cymru yn gyffredinol. Ychwanegodd Ms Boccato: 'Does dim angen i chi fod yn arbenigwr - ond eich bod yn frwdfrydig am fywyd gwyllt ac yn dda gyda phobl. Mi fydd hyfforddiant, felly does dim angen profiad blaenorol.'

Dyma gyfle i chi gwrdd â phobl a'u hysbrydoli i ddysgu am adar a bywyd gwyllt arall tra'ch bod yn cyfrannu'n wirioneddol i warchodaeth. Ffurfiwyd yr RSPB gan wirfoddolwyr ym 1889, a heddiw yng Nghymru mae gan yr elusen gwarchodaeth 937 o wirfoddolwyr sy'n rhoddi eu hamser am ddim. Felly wrth ein helpu ym Mhortmeirion, mi fyddwch yn dilyn camre nifer fawr o bobl eraill sy'n cefnogi'r elusen!

Felly os gallwch chi helpu yn ystod y prosiect am ychydig o ddiwrnodau pob mis, neu hyd yn oed sawl diwrnod yr wythnos fel mae rhai gwirfoddolwyr wedi gwneud, mi fyddai'n wych i glywed gennyh!

Cysylltwch â Kim Boccato ar 07921 283 685 neu ar ebost ar

Kim.Boccato@rspb.org.uk

RHODDION

£50.00: Hywel Williams A.S

£36.50: R. Elwyn William,
Cranleigh.

£20.00: Neville Roberts,
Prestatyn; Alwyn a Mair
Williams, Seion; Mrs Nellie
Williams, 29 Rhydfadog,
Deiniolen; Er cof am Dilys
Baylis, Llanberis.

£12.50: Gwerfyl McCarthy,
Childwell.

£11.50: Di Enw.

£10.00: Eurwyn Lloyd
Evans, Llanrug; Mrs Olwen
Ebbrell, Coventry; Anna
Sidebotham, High Peak; Er
cof am Bob a Hetty Hughes,
Llanberis, Verna, Dilys a
Ruth, Meillionen, Cwmyglo

£6.50: Jenny Davies,
Tregaron; Mrs N. Lovatt,
Aberystwyth; Ronnie
'Llanbabs' Williams,
Aylestone; Nancy Parry,
Penygroes; Dienw, Llanrug.

£6.00: Gomer Davies,
Tregarth.

£5.00: Rhodd Di-enw
Llanrug; Rhodd Di-enw,
Llanrug; Lois Regan, 3 Stryd
Newydd, Deiniolen; Mrs
B. Williams, Llanfairpwll;
Geraint Huws Roberts,
Bangor; Mrs Enid Jones,
Talsarn; Haf Thomas,
Llanrug; Dienw, Llanrug.

£3.00: Mr Owen Jones,
Llangefni.

WAVELL'S

Bryn ac Angela Williams

London House, LLANRUG

Ffôn:

(01286) 673574

PEN CIGYDDION Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus,
Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

**MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NII**

LECSIWN CYNGOR GWYNEDD.

Ar ddydd Iau, Mai 3ydd bydd etholwyr gwahanol gymunedau yn nalgylch yr "Eco" yn penderfynu pwy fydd yn eu cynrychioli am y blynyddoedd nesaf ar Gyngor Gwynedd.

Mae cynrychiolwyr pedair o'r cymunedau eisoes yn wybyddus, gan mai un enw yn unig a enwebwyd ar eu cyfer. Felly, bydd etholwyr Cwm y Glo, Llanberis, Llanrug a Phenisa'rwaun yn cael arbed pleidleisio. Y cynghorwyr ar eu rhan fydd Brian Jones (Llafur), Trevor Edwards (Annibynnol), Charles Wyn Jones (Plaid Cymru) a Hefin Williams (Plaid Cymru). Mae tri yn aelodau profiadol, ac wedi gwasanaethu nifer o flynyddoedd ar Gyngor Gwynedd eisoes. Yr enw newydd yw Hefin Williams, fydd yn gwasanaethu Phenisa'rwaun yn dilyn ymddeoliad Pat Larsen wedi blynyddoedd o wasanaeth clodwiw.

Bydd etholwyr Bethel, Deiniolen a'r Waunfawr yn pleidleisio, gan ddewis rhwng un o ddau ymgeisydd. Ym Methel, bydd yr aelod presennol, Huw Price Hughes (Plaid Cymru) yn wynebu her gan Sion Wyn Jones (Llafur). Yn Neiniolen bydd Len Jones (Plaid Cymru), yr aelod presennol, yn wynebu brwydr yn erbyn Elfed Wyn Williams, ymgeisydd annibynnol, ac yn Y Waunfawr, bydd Eurig Wyn (Plaid Cymru) yn ceisio disodli'r aelod presennol, Gwilym Owen Williams (Annibynnol). Dyma grynodeb o sylwadau'r holl ymgeiswyr.



Bethel.

Sion Jones. Rwyf wedi bod â diddordeb mewn gwleidyddiaeth erioed, ac mae'n anrhydedd cael sefyll am swydd mor heriol yn ugain oed. Mae angen gwaed ifanc a newydd ar y Cyngor. Mae nifer o broblemau yng

ngymuned Bethel sydd angen eu datrys megis y tir diffaith ar Stad Bro Eglwys, a phroblemau parcio yn gyffredinol. Mae angen codi ymwybyddiaeth fod band eang cyflymach ar gael, ac egluro'n iawn beth yw'r cynllun

mae Llywodraeth Cymru wedi ei gynnig ers Awst y llynedd. Bwriadaf, os caf fy ethol, gynnal cyfarfod misol yn neuadd y pentref i drafod materion cyfredol yr etholaeth.



Huw Price Hughes.

Braint oedd cael eich cynrychioli ar sedd Bethel a Seion am y pedair mlynedd diwethaf ac edrychaf ymlaen i'ch cynrychioli am y pum mlynedd nesaf.

Fel o'r blaen addawaf roi o'm gorau i drigolion yr ardal. Teimlaf fod fy mhrofiad dros y blynyddoedd yn cydweithio gyda thrigolion, mudiadau a grwpiau'r ardal wedi dangos ffrwyth fy llafur gyda'r holl welliannau sydd wedi digwydd ac ar fin digwydd o fewn i'r etholaeth.

Gan fy mod wedi ymddeol,

mae gen i'r amser a'r profiad i roi llais cryf tros anghenion yr ardal.

Rhai o'r pethau hoffwn weld yn cael eu gwneud yn lleol.

Ceisio sicrhau gwaith a chartrefi o safon i'n hieuenctid gan leihau diboblogi. Dal i weithio i gael gwelliannau i ffyrdd, strydoedd a llwybrau cyhoeddus o fewn yr etholaeth, yn cynnwys gorffen datblygu tir Stad Bro Eglwys.

Sicrhau fod cynllun Atal Llifogydd Bethel a Penrhos yn effeithiol at y dyfodol (mae cam pellach at gyflawni hyn

yn digwydd oddi fewn pentref Bethel ar y foment).

Parhau â'r gwaith o gwblhau'r cynllun band llydan cyflym i'r fro (bydd y gwasanaeth yma yn weithredol i'r holl etholaeth cyn diwedd Mai eleni, y cyflenwyr yw cwmni Netserve o Lanelwy).

Parhau i weithio i uwchraddio adeilad a chyfleusterau'r Neuadd Goffa.

Sicrhau Trafnidiaeth gyhoeddus fydd yn ateb gofynion ein pentrefi.

Trefnu a chydweithio i geisio cael trefn parcio a thraffig yn Saron a Thre Gof

Waunfawr.

Gwilym Owen Williams.

Bum yn gynghorydd ers ugain mlynedd, ac wedi cynrychioli'r ardal ar y cyngor sir a'r hen gyngor bwrdeisdref. Bum yn aelod o Gyngor Cymuned Waunfawr ers 28 mlynedd, ac yn Llywodraethwr yr ysgol ers 26 mlynedd. Rwy'n aelod o Fwrdd Parc Cenedlaethol

Eryri ac Awdurdod Tân Gogledd Cymru. Rwyf wedi gwasanaethu ar bwyllgorau cyllid, cynllunio, tai, priffyrdd a'r amgylchedd.

Rwyf yn gyson wedi ceisio sicrhau fod gofynion yr etholwyr yn cael eu hystyried, ac yn credu mai trwy weithio'n annibynnol y gallaf flaenoriaethu gofynion

y ward. Gan edrych i'r dyfodol, gobeithiaf gael y cyfle i weithio mewn mannau sy'n effeithio ar economi a swyddi'r ardal, addysg a materion iechyd cyhoeddus, gan gynnwys tai a hamdden.



Eurig Wyn

Os yn llwyddiannus yn yr etholiad, rwy'n edrych ymlaen yn fawr am gael cydweithio â thim Plaid Cymru ar Gyngor Gwynedd, sydd wedi cael clod uchel gan Gomisiwn Archwilio Cymru am y ffordd effeithiol maent yn rhedeg y Cyngor.

Fy mlaenoriaethau yn y Waunfawr fydd cael cae peldroed i'r pentref yn ogystal â chario ymlaen gyda'r gwaith i gael cae chwarae pwrpasol yn Gerddi Bach. Dyna fu'r ymateb i holiadur a drefnais drwy'r ardal. Galwaf am dwtio hen safle Whiteways, a bwriadaf gydweithio i ddatblygu cynllun

busnes i Ganolfan Waunfawr. Yng Nghaeathro, gwnaf fy ngorau i ledur palmant i gyfeiriad y garej ac ymestyn y palmant o'r pentref i Gaernarfon. Ceisiaf hefyd sicrhau na fydd llwybr y ffordd osgoi newydd yn tywys gormod o draffig drwy'r pentref.



Deiniolen.

Len Jones.



'Braint a phleser yw cael bod yn ymgeisydd unwaith eto i etholiad Cyngor Gwynedd ar ward Deiniolen, sydd yn cynnwys Pentrefi Clwt y Bont, Deiniolen, Dinorwig, Gallt y Foel a Fachwen. Dwi wedi byw yn y ward ers dros 60 o flynyddoedd ac yn adnabod trigolion yr ardal gyfan yn dda iawn. Cefais y pleser o weithio'n agos â llawer fel llywodraethwyr Ysgol Gwaun Gynfi, Ysgol Brynrefail, aelodau Canolfan Dinorwig, Gŵyl Deiniolen a'r Cylch, Eglwys Crist Llandinorwig, Parc

Elfed Williams.



Rwyf yn 45 mlwydd oed ac yn byw yn Ffordd Deiniol. Bum yn drysorydd ac ysgrifennydd y clwb peldroed lleol, a bellach, yn ysgrifennydd Gŵyl Deiniolen. Rwyf hefyd yn aelod o bwyllgor y Clwb

Padarn, Y Gymdeithas Lenyddol, Cwmni Adfywio Deiniolen a'r Cylch, Cyngor Cymuned Llanddeiniolen, Y Band, yr Eglwys a'r ysgolion drwy'r Clybiau Cant a hefyd Bingo Elidir a Chlwb Orwig. Mae pob un o'r mudiadau yma yn gwneud gwaith arbennig a phwysig yn y gymuned i hybu a datblygu dyfodol yr ardal gyfan. Hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch i bawb am eich cyfraniad a'ch cymorth dros y blynyddoedd diwethaf.

Dywedodd Alun Ffred Jones, AC: 'Mae Len yn gynghorydd effeithiol sy'n cadw cyswllt yn

Snwcer ac yn dosbarthu "Eco'r Wyddfa" yn fisol. Ers rhai blynyddoedd rwyf yn aelod o'r Cyngor Cymuned.

Rhai o'm blaenoriaethau pe cawn fy ethol fyddai pwyso i gael twtio'r ardal: mae problem enfawr efo sbwriel yma.

gyson efo mi fel Aelod Cynulliad ar ran pobol Deiniolen.'

Ychwanegodd y Cyng. R. Len Jones 'Mae cynghorau lleol yn wynebu hinsawdd ariannol anodd i'r dyfodol ac mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod ni yng Ngwynedd yn parhau gyda ein gwaith da o edrych ar ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau hanfodol i'n trigolion. Wrth gwrs, mae problemau yn dal angen eu datrys ac rwy'n edrych ymlaen at yr her os caf fy ail-ethol. Diolch am bob cymorth ac am y croeso a gefais ar eich aelwydydd.'

Byddwn hefyd yn agor man galw yn Neiniolen a Dinorwig, ac yn rhoi pwysau ar y Cyngor i gadw a datblygu gwasanaethau sylfaenol. Mae sefyll fel ymgeisydd annibynnol yn golygu y byddaf yn trin pob etholwr yn gyfartal.

Penisarwaun

Hefin Williams.



Yn wreiddiol o Ddeiniolen, mae'n byw yn Rhiwlas bellach. Ef yw Cadeirydd presennol Cyngor Cymuned Llanddeiniolen. Meddai Hefin: "Dwi'n awyddus i weithio dros drigolion yr ardal, gan wrando ar farn y bobl a rhoi'r cyfle i bawb gael dweud ei ddweud. Dwi'n credu'n gryf bod

yn rhaid i ni gydweithio'n lleol er mwyn sicrhau'r gwasanaeth gorau posibl i bobl yr ardal."

Ei flaenoriaethau fydd cydweithio i sicrhau gwasanaeth addysg, iechyd, gofal, hamdden a phlismaona o'r radd flaenaf i'r ardal. Gweithio'n galed gyda busnesau lleol, ffermwyr a grwpiau twristiaeth gan hybu

ymdrechion i greu gwaith. Ysgogi gweithgareddau cymunedol. Hybu adeiladu tai i bobl leol yng nghefn gwlad.

Talodd wrogaeth i'r cynghorydd Pat Larsen am ei gwaith diflino dros flynyddoedd lawer, a diolch iddi am ei chefnogaeth iddo yntau.

ACHUB Y PLANT

Apêl i gymryd camau 'adeiladol' i achub bywydau babanod ym Mangladesh yn ystod Wythnos Achub y Plant.

Eleni mae Achub y Plant yn holi am gefnogaeth pobl Cymru i helpu'r elusen i gyrraedd targed o filiwn o bunnoedd er mwyn adeiladu clinigau ym Mangladesh.

Yn ystod Wythnos Genedlaethol Apêl Achub y Plant, rhwng 29 Ebrill a 5 Mai, nod yr Apêl 'Briciau ar gyfer Babanod' (Build It For Babies) yw codi digon o arian ar gyfer adeiladu saith clinig yn rhai o ardaloedd tlotaf a mwyaf diarffordd Bangladesh, yn Baniachong ac Ajmeriganj Bangladesh yng ngogledd ddwyrain y wlad. Bob awr o'r dydd mae 11 babi newydd-anedig yn marw ym Mangladesh oherwydd diffyg gofal iechyd sylfaenol. Mae 170,000 o blant o dan bump oed yn marw yn ddiangen o achosion y gellir eu hatal neu eu trin yn rhwydd ac yn rhad. Meddai James Pritchard, Pennaeth Achub y Plant yng Nghymru:

'Mae canran uchel o ferched ym Mangladesh yn geni yn eu cartrefi heb gymorth bydwaig sy'n rhoi eu bywydau eu hunain a rhai'r babanod mewn perygl. Mae'n warthus hefyd fod cynifer o blant o dan bump oed yn dal i drengi am nad oes ganddynt fodd i gael y gofal iechyd mwyaf sylfaenol.' Yn ystod Wythnos Achub y Plant gofynnwn yn garedig i bobl wneud rhywbeth adeiladol i'n helpu i gyrraedd y targed o filiwn o bunnoedd fel y gallwn adeiladu'r clinigau yma er mwyn achub bywydau babanod a phlant.

'Mae pob un ohonom wedi ein geni i wneud rhywbeth a pha well esgus i arddangos ein doniau nag yn ystod Wythnos Achub y Plant? Os mai coginio yw eich dilêit yna ewch ati i wneud teisennau a chynnal bore coffi i'ch ffrindiau a'ch teulu. Mae codi £3.00 am baned a theisen yn ddigon i brynu rhwyd mosgito i amddiffyn plentyn rhag malaria. Neu beth am drefnu noson gyrru i'ch ffrindiau gan ddefnyddio rysâit draddodiadol Bengali?' Ychwanegodd: 'Ydych chi'n hoff o ganu? Yna trefnwch gyngerdd

a holi côr lleol i ymuno â chi. Neu os ydych yn un am her, beth am redeg ras neu drefnu taith gerdded noddedig? Mae digon o bethau y gallwch ei wneud ac mae pob ceiniog yn mynd i wneud gwahaniaeth mawr, felly byddem yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth.' Mae modd i bobl gefnogi hefyd drwy brynu 'bricsen ryngweithiol' am £5 i helpu adeiladu'r clinigau yma. Yn ogystal gall: £14 brynu clorian bwrpasol ar gyfer pwyso babanod; £49 brynu cit ar gyfer esgor plentyn; £150 gyflogi paramedic am fis; £1,000 brynu cyflenwad blwyddyn o offer meddygol ar gyfer delio gydag argyfyngau yn ystod genedigaethau; £2,500 helpu i brynu ffynnon a fydd yn cyflenwi dŵr glân ar gyfer y clinig ac yn cadw plant a theuluoedd rhag afiechydon. Gallwch gyfrannu drwy wefan Achub y Plant - savethechildren.org.uk/buildit - neu drwy ffonio 0800 8148 148 neu anfon neges destun gyda'r gair BRICK i 7008

Eurgain Haf Swyddog y Cyfryngau (Cymru)

Achub y Plant

3ydd Llawr, Tŷ Ffenics

8 Ffordd yr Eglwys Gadeiriol CAERDYDD CF11 9LJ

Symudol: 07909937218

Ffôn uniongyrchol: 029 20 803 260

BYSUS RHIWLAS

Bysus bach a mawr ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, parffion, triapiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

YSGOL GYNRADD

LLONGYFARCHIADAU mawr i Miss Donna Griffiths a Mr Owain Owen ar enedigaeth eu merch fach, Ana Fflur.

GWERSI BEICIO A DIOGELWCH Y FFYRDD.

Derbyniodd Blwyddyn 6 wersi sgiliau seiclo ac fe gafodd y dosbarth gyflwyniad ar Ddiogelwch y Ffyrdd gan Mrs Paula Owen, Cyngor Gwynedd. Cafodd Blwyddyn 5 a 6 weld perfformiad o 'Dim Ond Eiliad' a oedd yn ymdrin â diogelwch y ffyrdd. Diolch i Swyddogion Diogelwch y Ffyrdd yr ysgol, Gwenllian Griffiths a Gethin Jones am drefnu'r ymweliad.

GRŴP BACH DINA. Mae Miss Wendy Hebenstreit a Mrs Julie Bragan yn cyflwyno'r rhaglen therapiwtig 'Grŵp Bach Dina' ar gyfer grŵp o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen. Bwriad y rhaglen yw hybu datblygiad sgiliau cymdeithasol ac emosiynol plant ifanc.

AROLWG DŴR. Yn ddiweddar, cynhaliodd y disgyblion arolwg dŵr dan arweiniad Clare Jones o Dŵr Cymru er mwyn ceisio amlygu'r angen i leihau defnydd gwastraffus o ddŵr.

ANTUR WAUNFAWR. Parha'r ysgol i gydweithio gydag Antur Waunfawr a chafwyd casgliad arall o hen ddillad, er mai braidd yn siomedig oedd yr ymateb y tro diwethaf. Gobeithir gosod bin dillad ar dir yr ysgol yn y dyfodol agos. Cofiwch ddod â'ch hen ddillad draw - maer ysgol yn derbyn arian am bob tunnell a gesglir!

COED CADW CYMRU (WOODLANDSTRUST). Mae'r ysgol yn cydweithio gyda Coed Cymru er mwyn datblygu prosiect yr ardd. Cynhaliodd Coed Cadw Cymru hyfforddiant i oedolion ar sut i adeiladu blychau plannu ar gae'r ysgol a bydd yr ysgol yn elwa o gael blychau wedi eu hadeiladu iddynt! Gobeithir y bydd hyn yn caniatáu i'r plant gael cychwyn o ddifrif ar eu gardd lysiau!

GARDD YSGOL. A fyddai gan unrhyw un ddiddordeb mewn helpu'r disgyblion i greu gardd ysgol yn ystod oriau ysgol neu fin nos? Cysylltwch â'r ysgol am fwy o fanylion! Diolch!

FFRAINC. Mae Ysgol Bethel wedi ffurfio cyswllt gydag ysgol Pierre Stadler yn Nantes, Ffrainc. Llwyddodd Mrs Guillemain i dderbyn grant ar gyfer cymryd rhan mewn prosiect datblygu Ffrangeg yn yr ysgol gynradd. Roedd y



CHWARAEON. Enwebodd y disgyblion Elan Jones a Nathan Hughes i fod yn llysgenhadon chwaraeon yr ysgol. Llongyfarchiadau mawr iawn i sgwad gala nofio'r ysgol am ennill Gala Nofio Ysgolion Arfon! Da iawn chi, blant! Llongyfarchiadau i'r tim hoci a ddaeth yn ail yn Nhwrnament Hoci Ysgolion Arfon ac yn drydydd yn y rownd derfynol drwy Wynedd.

Bu naw o blant Blwyddyn 6 yn cynrychioli'r ysgol mewn cystadleuaeth athletau yn y Ganolfan Hamdden yng Nghaernarfon. Roedd y plant wedi mwynhau'r profiad yn fawr.



Y CYNGOR YSGOL. Bu'r Cyngor Ysgol yn brysur unwaith eto y tymor hwn dan arweiniad Miss Sharon Jones. Buont yn cyfrannu at drefniadau Diwrnod y Llyfr a buont yn gyfrifol am gynnal 'Diwrnod Coch' i godi arian at ymchwil y galon, gan lwyddo i wneud elw o £120.15. Buont hefyd yn brysur yn trefnu gweithgareddau Sports Relief a chodi £223.40. Eleni roeddent yn gwerthu bandiau chwys a bu'r Adran Iau yn rhedeg milltir oddi amgylch y cae a'r Babanod yn rhedeg hanner milltir! Diolch arbennig i swyddogion y Cyngor Ysgol am eu gwaith caled, yn enwedig Rhys Roberts a Sara Dylan, Blwyddyn 6.



ANGHARAD TOMOS. Cafodd y babanod brynhawn difyr iawn yng nghwmni'r awdures Angharad Tomos sydd yn ysgrifennu llyfrau Rala Rwdins. Roedd y plant i gyd a'r staff wedi mwynhau yn arw!

prosiect yn cynnwys wythnos yn cysgodi athrawes mewn ysgol yn Ffrainc. Bydd y cyswllt rhwng y ddwy ysgol yn parhau gyda plant Blwyddyn 5 a 6 yn cysylltu â'i gilydd trwy lythyr ac ebyst!

GWETIHDY DIWRNOD GOLCHI. Bu dosbarth Seion mewn gweithdy Diwrnod Golchi yn yr Amgueddfa Lechi fel rhan o'u thema dosbarth. Diwrnod arbennig o dda gyda'r plant wedi eu syfrdanu gan

hanesion difyr Anti Margiad! Gŵyl Ddewi. Cynhaliwyd Cyngerdd Gŵyl Ddewi anrhydeddus iawn eto eleni. Yn ôl yr arfer, gwahoddwyd Clwb yr Henoed am de a chyngerdd a perfformiodd y plant yn ardderchog yn ôl eu harfer. Diolch i ddosbarth Elidir am baratoi'r lluniaeth.

YR URDD. Mae'r ysgol wedi bod yn cydweithio'n glos efo Adran Bentref yr Urdd er mwyn hyfforddi plant ar gyfer yr eisteddfod. Cafwyd sawl llwyddiant a phob lwc i'r rhai sydd wedi llwyddo i fynd drwodd i'r genedlaethol.

CERDDORIAETH. Cafodd y plant i gyd brynhawn arbennig mewn gweithdy cerdd dan ofal KEYSTRINGS yn ddiweddar. Roedd y plant wedi cael eu gwefreiddio efo'r holl offerynnau cerdd gwahanol. Cafodd Blwyddyn 3 a 4 y profiad o fynd i VENUE CYMRU i wrando ar Gerddorfa Cenedlaethol y BBC.

CRA. Hoffai'r ysgol ddiolch i'r Gymdeithas Rhieni Athrawon am ariannu'r canlynol y tymor hwn: taflunydd a chliniadur i'r neuadd; meinciau i'w rhoi ar y cae a sied i gadw adnoddau. Bydd y gymdeithas hefyd yn ariannu gwefan i'r ysgol. Mae'r drafft cyntaf bellach wedi ei chwblhau! Mae ein diolch yn fawr iawn i chi am eich gwaith caled yn codi arian at yr ysgol.

DIOGELWCH. Mae'r ysgol wedi derbyn sawl cwyn gan yr heddlu a chwmnïau bysiau fod rhieni/gofalwyr yn parhau i barcio neu i ollwng eu plant yn yr arosfa bws. Mae'r ysgol yn gofyn yn garedig i neb barcio yn y manau hyn nac ychwaith o flaen mynediadau'r tai sydd wrth ymyl yr ysgol. Yn ogystal â hyn, mae rhai plant sydd yn cerdded i'r ysgol eu hunain yn croesi'r ffordd gyferbyn â garej Ceir Cymru. Gan fod loriau mawr yn dadlwytho yn y boreau, gallai hyn fod yn berygl iawn. Hoffai'r ysgol bwysleisio fod angen i bob un plentyn sydd yn cerdded i'r ysgol eu hunain groesi'r lôn mewn man diogel sef o flaen yr ysgol, lle mae Anti Helen, y Swyddog Croesi Ffordd.

GWIRFODOLWYR. Parha ein gwirfoddolwyr i ddod i gefnogi yr ysgol. Diolch i Mr Gwerydd Griffiths, ein gwirfoddolwr darllen ffyddlon ac i'r "genod gwau": Mrs Mary Hughes, Mrs Valmai Owen a Mrs Betty Owen. Diolch hefyd i Mrs Manon Llwyd Thomas am ein cynorthwyo gyda'r clwb "Steddfod".

CLWB BRO BETHEL.

Daeth nifer dda o aelodau draw i wrando ar Ellis Wyn o Bodffordd. Croesawyd pawb gan y Llywydd, Y Parchedig Marcus W. Robinson, a braf oedd cael croesawu yn arbennig Gwyneth Hughes a Myra Griffith yn ôl yn dilyn llawdriniaeth yn ddiweddar. Anfonwyd cofion at Mair Jones, Tan y Buarth, hithau hefyd wedi bod yn yr Ysbyty. Siaradodd Ellis Wyn yn ddifyr gan olrhain hanes Dirwest yn Sir Fôn. Ar un adeg roedd tua 3,000 o dai tafarn ar yr Ynys, a'r arferiad oedd i aml bregethwr fynd o'r dafarn i'r Capel. Cawsom hanesion nifer o gymeriadau byw lliwgar o'r cyfnod. I gloi'r sgwrs darllenodd Ellis Wyn ddarnau o farddoniaeth gan Emrys Deudraeth a Selwyn Iolen - dau o gyn Archdderwyddon a dau a roddodd gymaint o wasanaeth i Eisteddfodau bach ar hyd a lled Cymru. Diolchwyd yn gynnes iawn iddo gan Geraint Elis. Bydd y cyfarfod nesaf ar 1af o Fai gyda Donald Pritchard yn w'r gwadd.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. I ddiweddu gweithgareddau tymor y gaeaf

aeth nifer o'r aelodau am Swper Pentymor i Dafarn Y Faenol, Pentir, am bryd o fwyd blasus. Bu i bawb fwynhau'r cymdeithasu a'r gwledda a diolchodd y Parchedig Marcus Wyn Robinson i Nora Parry am yr holl drefniadau. Enillwyr y raffl oedd; Sheila Williams, Beti Owen ac Elwyn Hughes. Bydd cyfarfodydd y Gymdeithas yn ail gychwyn yn yr Hydref.

CAPEL BETHEL. Cafwyd gwasanaeth Y Pasg bendithiol gan blant yr Ysgol Sul ar Sul y Blodau, 1af o Ebrill 2012, pawb yngwneud eu gwaith yn raenus. Yna yn dilyn bedyddiwyd Elis Tomos Griffith, mab bach Gwenno a Brian Griffith. Braf oedd gweld y Capel yn llawn. Bydd y casgliad rhydd o £60 yn mynd at Tŷ Gobaith, gan fod Gareth Owen (aelod), Stad y Rhos, yn reidio ei feic i Gaerdydd at yr elusen.

LLONGYFARCHIADAU i Edwina ac Alwyn Foulkes, 12 Dôl Afon, ar enedigaeth wyres fach, Siwan Bellis, merch fach i Antony a Gwyneth. Pob dymuniad da i'r tri yn eu cartref newydd ym Mrynrefail.

ADREF O'R YSBYTY. Dymunwn wellhad buan i Mrs Gwyneth Roberts, Bod Gwynedd, ar ôl derbyn triniaeth i'w phen-glin yn Ysbyty Gwynedd. Hefyd i Mrs Rhian Jones, Bron Eryri, ac i Mrs Mair Williams, Elidir View, Bwlch, a fu am gyfnod yn Ysbytai Gwynedd ac Eryri, Caernarfon.

DIOLCH. Dymunwn ddiolch o galon i Mr Garem Jackson, prifathro'r ysgol a Mrs Nia Oliver, ac yn arbennig i'r plant, am blygu'r Eco y mis diwethaf gan dorri'r record a

chwblhau'r gwaith mewn awr a hanner. Gobeithio na fu raid i Anti Marian aros yn hir iawn ar ôl yn yr ysgol.

UNDEB Y MAMAU. Cyfarfu'r gangen yn Feed my Lambs Caernarfon pnawn Mawrth, Ebrill 17, am ddau o'r gloch. Yn absenoldeb Mrs Auriel Howels yr oedd y cyfarfod yng ngofal Mrs Iola Jones a chafwyd gwasanaeth byr. Ar ôl y gwasanaeth cafwyd adroddiad am gyfarfod mis Mawrth a phasiwyd ei bod yn gywir. Trafodwyd rhai materion.

Y gw'r gwadd oedd Y Parch. Eric Roberts sydd yn gofalu am eglwysi Llangaffo, Niwbwrch ac eraill ar Ynys Môn. Cafwyd adroddiad ddiddorol gan Mr Roberts am rai o drigolion Llandysul yr oedd wedi eu cyfarfod yn ystod y naw mlynedd tra yn y plwyf.

Y gwesteion oedd Joyce, Margaret, Enid a Kathleen a diolchwyd iddynt ac i Mr Roberts gan Mrs Pat Walden Terfynwyd y cyfarfod trwy adrodd y gras yn Gymraeg a Saesneg.

Cyfarfod nesaf Mai 15.

Cofiwch ddefnyddio

SWYDDFA POST BETHEL

(01248) 670261

Cewch groeso cynnes gan CLED A SUSAN

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant • Tynnu Pres (Cashback)

ORIAU AGOR

6 a.m. - 7.30 p.m.

(Lun-Sadwrn)

6 a.m. - 3 p.m. (Sul)

Cynnyrch a gwasanaethau priodol ar gyfer y rhai dros 50 oed

- Yswiriant Cartref
- Yswiriant Car
- Yswiriant Teithio
- Nwy a Thrydan
- Larymau Personol
- Cynlluniau Angladdau



Am bris heb rwymedigaeth, ewch i:

Age Concern Gwynedd a Mon
Ty Seiont, Ffordd Santes Helen
Caernarfon LL55 2YD
Ffôn: **01286 678310**
(ar agor 9am-5pm Mon to Fri)

Neu ffoniwch **0800 085 3741** neu ewch i
www.ageuk.org.uk/products



Darperir yswiriant cartref, car a theithio gan Yswiriant Ageas Cyfyngedig. Darperir Nwy a Thrydan gan E.ON Energy Solutions Cyfyngedig. Age UK yw nod masnach Age UK (Elusen rhif 1128267). Defnyddir enw a logo Age UK o dan gytundeb trwydded rhwng Age UK ac Age UK Enterprises Limited, sef eu cangen gwasanaethau masnachol. Rhoddir yr elw net i Age UK. Age UK Enterprises Limited, Linhay House, Ashburton, Devon TQ13 7UP. ID9975 11/10 MP2430V2APR11 SL031616_11_1

- Priodasau • Dathliadau
- Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
- Pwyllgorau • Bwydlen Bar

**THE LEGACY
ROYAL VICTORIA HOTEL
LLANBERIS**

wrth droed yr Wyddfa

Ffôn: **08444 119 003**

Dylan Griffith

Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

*Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Pheronol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu'r Holl Ardal*

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrhaeddwch Mewn Steil Mewn Cerbyd Rolls Royce
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDD ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

**CYMDDEITHAS
CYFEILLION
EGLWYS CRIST
LLANDINORWIG.**

Cyfarfu aelodau'r Gymdeithas yn yr Eglwys ar nos Lun Ebrill 2il. Ar ôl gwasanaeth byr, cyflwynodd y llywydd, Mrs Rosina Worth ein gŵr gwadd am y noson, sef Mr. Barry Davies, Llanberis.

Hogyn o Ddeiniolen ydyw Barry, wedi ei eni a'i fagu yma yn y pentref ac yn Eglwys Crist. Swyddog Morwrol gyda Chyngor Gwynedd ydyw wrth ei waith bob dydd ac mae hefyd yn gwarchod parciau gwledig Glynllifon a Phadarn.

Cafwyd sgwrs ddifyr iawn ganddo a, gyda chymorth lluniau cyfrifiadurol, cawsom y fraint o fynd ar daith ar hyd arfordir Gwynedd. Hyfryd oedd gweld y golygfeydd prydfarth a'r traethau ar wahanol adeg o'r flwyddyn - rhai ym mwrlwm yr haf eraill yn hollol wahanol yn y gaeaf. Syndod hefyd oedd sylwi ar beth sydd yn cael ei olchi i'r lan gan y môr. Diddorol iawn oedd

gwrando arno yn egluro ei gyfrifoldebau a'r digwyddiadau sydd yn dod i'w ran o dro i dro - rhai pleserus iawn, eraill yn gallu bod yn erchyll.

Diolchwyd iddo gan y Cynghorydd Len Jones, wedyn mwynhawyd sgwrs dros baned oedd wedi ei pharatoi gan Eileen a Gwen. Cafwyd noson ddiddorol, hwyliog dros ben a diweddwyd drwy gydadrodd Y Gras.

DYMUNA Mrs Beryl Griffiths ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a gofalwyr am yr holl anrhegion defnyddiol a chardiau a blodau a dderbyniodd yn ystod cyfnod ei phen-blwydd.

DIOLCH. Dymuna Lois Regan ddiolch yn fawr iawn i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am eu cefnogaeth, ac am y cardiau, arian a'u dymuniadau gorau ar ei llwyddiant o gael ei dewis i gynrychioli ei gwlad fel rhan o garfan pêl-droed genod dan 16 oed Cenedlaethol Cymru yn ddiweddar. Hoffai hefyd gymryd y cyfle i ddiolch i Glwb Ieuenctid Pêl-droed Deiniolen, Llewod Llanrug, Ysgolion Gwaun Gynfi a Brynrefail a'u hyfforddwyr, gorffennol a phresennol, am y cyfleon, yr hyfforddiant a'u hamser dros y blynyddoedd diwethaf. Diolch o galon i bawb.

**CYMDDEITHAS
LENYDDOL
DEINIOLEN.**

Croesawyd pawb i'r Gymdeithas gan y llywydd, y Parchedig John Pritchard. Anfonwyd cofion at Mrs Eurwen Roberts, Rhydfadog, oedd wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd ond yn gwella erbyn hyn ac adref o'r ysbyty.

Cafwyd sgwrs ddiddorol gan Mr Maldwyn Thomas, Bangor, ar gadw a throsoglwyddo straeon a hynny, meddai, yn ffordd o ddiogelu ein syniad o pwy ydym fel pobl a chenedl. Roedd yn ddifyr dros ben a diolchwyd iddo gan y Cynghorydd Len Jones.

**CLWB CANT YSGOL
GWAUN GYNFI.**

Enillwyr Ionawr oedd: 1. Lynda Ann Owen; 2. Delia Thomas; 3. Mandy Owen.

Chwefror: 1. Mona Parry; 2. Shaun Sutton; 3. Ffion Hughes. Mawrth: 1. Marina Marzelos; 2. Tristan Jones; 3. Len Jones.

Llwyddiant Peldroed **LLONGYFARCHIADAU** i Lois Regan, Stryd Newydd, ar gael ei dewis i garfan tîm pêl-droed genethod Cymru o dan 16 a fu'n cystadlu mewn twrnament yn ddiweddar yn yr Iwerddon. Gobeithio mai dyma fydd y cyntaf o nifer o ymddangosiadau dros ei gwlad, pob lwc.

EISTEDDFOD YR

URDD. Bu llwyddiannau eto i'r pentref yn eisteddfod y sir yn ddiweddar gyda parti hyn Lleisiau Llanbabs yn cael cyntaf yn eu cystadleuaeth, ac hefyd Osian Trefor Hughes a fu'n llwyddiannus yn canu'n unigol. Pob lwc iddynt i gyd pan fydd yr eisteddfod yng Nglynllifon.

LLEISIAU LLANBABS.

Bu'r parti yn yr Iwerddon yn ddiweddar yn cymryd rhan yn yr Wyl Ban Geltaidd, rhoddir yr hanes yn llawn yn y rhifyn nesaf o'r Eco.

GWELLHAD.

Dymunir gwellhad buan i Ieuan Williams wedi salwch diweddar, c i unrhyw un arall o'r ardal sydd wedi dioddef yn ddiweddar.

Cronfa Festri Ebeneser.

Mae'r Band yn trefnu noson arbennig ar nos Iau 17eg am 7.30, gyda doniau lleol yn diddori. Tâl mynediad fydd £5 i oedolion a £3 i blant. Bydd yr holl elw yn mynd tuag at gronfa gwella cyfleusterau'r Festri. Dewch yn llu i gefnogi talentau lleol ein pentref.



Hywel Williams

Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch **AS** mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth

8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE

01286-672076

neu

70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR

01248-372948

williamshy@parliament.uk

I longyfarch Lleisiau Llanbabs ar eu llwyddiant yn yr Wyl Ban-Geltaidd

Erys encore y côr mewn co', - i'r llu ceir llais Linsi'n eco.

Asio'n braf wnaeth seiniau bro, eu harlwy daniodd Carlow.

RLIJ

BOSCH Service
Car Service

BOSCH Service **OFT**
Approved centre

www.a-v-w.co.uk
01286 673559

CIBYN IND EST. CAERNARFON LL55 2BD
SAFON UCHEL Y GALLWCH EI DRYSTIO
ARBENIGWYR AR GEIR SWEDEN A'R ALMAEN
CEIR, CAMPERS A FANIAU

AVW **BOSCH Car Service**



Alun Ffred Jones

Aelod Cynulliad
Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch **AC** mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth

8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE

01286-672076

neu

70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR

01248-372948

alunffred.jones@cymru.gov.uk

Cofio am Irfon

Ar ôl salwch blin a wynebodd yn ddewr am chwe mis, bu farw Gwilym Irfon Williams, Marchlyn, Parc yr Hafod, Yr Wyddgrug (ond gynt o 2, Bro Elidir, Dinorwig) ar 19eg o Fawrth ac yntau yn 65 mlwydd oed. Bu ei angladd yn Amlogfa Pentre bychan, Wrecsam, ar Fawrth 26ain ac yn dilyn cafwyd gwasanaeth i ddiolch am ei fywyd yng Nghapel Bethesda, Yr Wyddgrug, ac roedd y capel yn orlawn. Braint, ymysg eraill, oedd dweud gair am Irfon yr hogyn drws nesaf a sôn am ddyddiau plentyndod. Ni allwn yn aml ddewis ein pobl drws nesa ond roeddem fel teulu yn hynod lwcus mai Mr a Mrs O.R. Williams ac Irfon oedd drws nesa i ni am flynyddoedd, a buont yn flynyddoedd hapus. Rhoddodd rhieni a'r gymuned Gymraeg chwarelyddol yn Ninorwig y gwerthoedd gwâr i Irfon fel i minnau ac eraill o'n cyfoedion.

Yn Ninorwig, hogyn tawel, swil ar adegau ond hynod alluog, cwrtais, boneddigaidd, cyfeillgar, cymdogol a chydwybodol oedd Irfon. Roedd yn rhan amlwg iawn, fel ni oll, o holl weithgaredd plentyndod a dyddiau ieuenctid braf ar y llethrau arbennig yma yn Arfon. Cyfoethog ac amrywiol oedd ein magwraeth ac mor lwcus oeddem o fedru mwynhau y ganolfan chwaraeon awyr iach naturiol ac arbennig ar lethrau yr Elidir Fach gan wneud, pan yn blant, ddefnydd llawn ohoni. Aeth bron i drigain mlynedd ers i mi gyfarfod Irfon gyntaf pan ddaeth drws nesa, ac yn Eisteddfod Y Bala y cyfarfûm ag ef olaf ac roedd erbyn hynny wedi ymddeol ar ôl cyfnod hir fel athro ond yn mwynhau swydd fel cofrestrydd dwyieithog Sir Fflint.

Ar ôl graddio mewn Cemeg ym Mhrifysgol Aberystwyth a dysgu yn ne Cymru am gyfnod, aeth i'r Wyddgrug ac i Ysgol Maes Garmon am flynyddoedd, lle roedd yn uchel iawn ei barch gan ddisgyblion a staff. Hyfryd, er yr amgylchiad trist, oedd gweld cynifer o'i gyfoedion o Ddinorwig o bell ac agos wedi dod i ffarwelio ag Irfon. Mae hyn wedi cryfhau'r awydd i drefnu aduniad yn Ninorwig rhyw ddydd o genhedlaeth Irfon a minnau. Bu Irfon yn ffyddlon iawn i'w fam oedrannus, sef Mrs Neli Williams, yn Rhydfadog yn Neiniolen ac mae'r golled iddi hi yn enfawr fel ag i'w weddw, Ann, a'r hogiau, Meilir ac Aled. Coffa da sydd gennyf am Irfon yr hogyn drws nesa.

Idris

Trwsio ac Adnewyddu Dodrefn

Wedi torri darn o ddodrefn?
Hoff gelfi wedi mynd i edrych yn drist?
Cysylltwch â ni i roi bywyd newydd i'ch trysor

Dennis & Julie Jones

01286 650255

PADARN LAKE

LLANBERIS (01286) 870260



**PRYDAU DA AR GAEL
POB DYDD**

CANOL DYDD**A GYDA'R NOS**

**Cinio Dydd Sul (CARVERY) rhwng
12.30 a 3.00 o'r gloch**

TE BACH POB DYDD RHWNG 2.30 a 5.00

Cyfleusterau- Bartion • Priodasau ac Achlysuron Arbennig

CYDYMDEIMLAD.

Anfonwn ein cydymdeimlad llwyrat at Mrs Nellie Williams, 29 Rhydfadog, gynt o 2 Bro Elidir, yn ei phrofedigaeth fawr o golli ei hunig fab, sef Gwilym Irfon Richard Williams yn yr Wyddgrug, yn 65 mlwydd oed. Y mae Mrs Williams yn 95 oed ac y mae'r golled yn andros o fawr, gan ei fod yn galw hefo'i fam yn aml iawn ac yn gwneud llawer iawn o bethau iddi o gwmpas y tŷ ac allan yn yr ardd. Colled na all neb ei llenwi. Gedy wraig, Ann, a dau o feibion, sef Meilir ac Aled. Anfonwn ein cydymdeimlad llwyrat â Mrs Williams a'r teulu yn yr Wyddgrug. Gobeithio, yn y dyddiau tywyll yma, y bu ichwi gael nerth ac iechyd oddi uchod.

CYNGERDD. Yn y rhifyn olaf o'r Eco fe fu imi ddweud y byddai cyngerdd yn

festri Ebeneser ar 26 Ebrill. Oherwydd rhai problemau fe fydd y cyngerdd yn cael ei gynnal yn awr ar 17 Mai. Doniau ardal Deiniolen a'r Seindorf fydd yn cadw'r cyngerdd gyda'r elw i gyd yn mynd tuag at wneud gwelliannau i'r Festri. Yr ydym fel swyddogion y capel yn ddiolchgar iawn iddynt. Cofiwch y dyddiad newydd a'r lle!

DYMUNA Mrs Nellie Williams, 29 Rhydfadog a'r teulu yn yr Wyddgrug, ddiolch o galon i'w teulu, cymdogion a ffrindiau yn Ninorwig, Deiniolen a'r Wyddgrug am y caredigrwydd mawr y bu iddynt ei dderbyn yn ystod eu profedigaeth lem o golli mab, gwâr a thad. Bu'r rhoddion, cardiau a'r galwadau ffôn o gymorth mawr iddynt yn yr oriau tywyll. Diolch yn fawr iawn i bawb.

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277

GWASANAETH GARDDIO**OWEN**

**GWAITH GARDDIO
TORRI GWAIR
TORRI CLODDIAU
TORRI A TRIN COED
GWAITH CLIRIO
PEINTIO**

**FFENSIO GERDDI A
FFERMYDD
LLWYBRAU A PATIOS
Gwaith Gravel a Concretio
Ffacias UPVC a Landeri
BLOC PAFIO**

07901648008

DIOLCHIADAU. Hoffwn ddiolch i Alun ac Ann Roberts, gynt o Stryd Goodman, am ddsbarthu'r Eco yn eu hardal am yr holl flynyddoedd. Pob dymuniad da ichwi yn eich cartref newydd.

Mae ein diolch yn fawr i'r holl ddsbarthwyr sy'n mynd o amgylch y pentref gyda'r Eco. Pe bai bawb yn talu blwyddyn ymlaen llaw, sef £5, buasai gwaith y dosbarthwyr yn llawer haws!

CYMD EITHAS UNDEBOL. Terfynwyd Tymor y Gymdeithas ar yr 17eg o Ebrill gyda chinio ardderchog yng Ngwesty Dolbadarn, Llanberis, am 7yh. Diolch unwaith eto i Aneuryn a'r Genod am y Wledd Fendigedig.

Y gwesteion oedd y Parchedig a Mrs Parri, Caernarfon. Cafwyd sgwrs hamddenol a braf gan y Parchedig Harri Parri. Dechreuodd trwy gyfeirio at y rhaglen boblogaidd deledu sy'n ymwneud â hen geiriau. Tynnodd o'i boced gyllell fach bren i agor llythyrau oedd, yn honedig, yn eiddo i neb llai na William Williams, Pant y Celyn. 'Roedd 'Pant y Celyn' wedi ei gerfio ar y gyllell.

Soniodd am fywyd William Williams, oedd yn llythyrwr ac emynydd brwd... mae llawer iawn o'i emynau ar gof a chadw o hyd, fel y gwyddom. Cyfeiriodd Mr Parri at ymweliad a wnaeth i gartref un o ddisgynyddion William Williams, lle y dangoswyd iddo gydyn o wallt, fflamgoch, William Williams mewn potel. Bu farw William Williams yn 74 mlwydd oed, yn 1791.

Diolch arbennig i'r Parchedig Harri Parri am sgwrs addysgol a diddorol iawn. Llywyddwyd y noson gan y Parchedig John Pritchard a rhoddwyd y diolchiadau, ynghyd â thusw o flodau i Mrs Parri, gan Mr Colin Jones.

Bydd Pwyllgor y Gymdeithas, i drafod rhaglen y tymor nesaf, ym Mis Mehefin, dyddiad i'w drefnu, a bydd y Gymdeithas yn ail ddechrau ym Mis Hydref. Bydd croeso cynnes i aelodau hen a newydd.

DIOLCH Dymuna teulu'r ddiweddar Dilys Baylis, Llanberis, ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a chefnogaeth a ddangoswyd tuag atynt ar farwolaeth mam arbennig iawn. Diolch am y llu galwadau, cardiau a rhoddion tuag at Capel Coch, Meddygfa Llanberis a Plas Pengwaith. Diolch i'r Parch John Pritchard, Parch John Owen, Rhuthun a'r Parch Meirion Lloyd Davies, Pwllheli, am eu gwasanaeth urddasol a pharchus yn Capel Coch, Amlogfa Bangor ac ym mynwent Macpelah, Deiniolen. Hefyd diolch i'r Organydd, Mr Gareth Jones, i Padarn Lake, ac i'r ymgymerwyr E.W. Pritchard am eu trefniadau gofalus.

CAPEL COCH
Moli: Cynhelir oedfa 'Moli' yn Capel Coch am 5.00 o'r gloch nos Sul, Mai 13, ac estynnwn wahoddiad i bawb ohonoch i ymuno â ni dan arweiniad aelodau iau'r eglwys.

Oedfa Deulu: Cynhelir Oedfa Deulu yn Capel Coch am 10.30 o'r gloch ddydd Sul, Mai 27. Croeso cynnes i bawb.

PWYLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant Ebrill a'r enillwyr Iwcus yw: Nia Oliver, Gors, Brynrefail a Helen Owen, Bryn Hyfryd.

Cynhaliwyd 'Hwyl Pasg' ar nos Fercher, 28 Mawrth. Cafwyd ymateb da i'r cystadlaethau o greu addurn Pasg, llunio cerdyn, addurno wy ac addurno het Basg. Dymunir diolch o galon i Nia Oliver a'i mam, Myfanwy, am feirniadu'r cynnyrch ac am eu geiriau caredig i bob ymgeisydd. Magi Tudur fu'r un Iwcus o ennill y gwningen fawr wen.

Cynhelir 'Miri Mai' ar 30 Mai gyda gemau, stondinau, raffl a phaned a bisgedi. Mynediad £1 i oedolion a 50c i blant. Taer erfynnir am gefnogaeth rhieni ac oedolion gan fod y gwaith o godi arian i wella cyfleusterau'r Neuadd Gymuned ar gyfer yr ysgol a'r pentref yn hynod o feichus yn flynyddol i aelodau ffyddlon y pwyllgor.

E I S T E D D F O D BENTREF.

Cynhelir Noson Bingo ynghyd â stondinau a raffl nos Fercher, 16 Mai. Cynhelir pwyllgor nos Fercher, 2 Mai, i drefnu'r noson.

YSGOL SUL BOSRA. Fore Sul, 25 Mawrth, cawsom gwmni Andrew Settatee o 'Cynllun Efe'. Dymunir diolch i Andrew am baratoi gweithgareddau difyr i'r aelodau ac am ei garedigrwydd o wobrwyo pob un ar y gwaith celf a'r ymateb da i'w anerchiad am y Pasg. Edrychir ymlaen i'w weld yn fuan eto. Y mae dau ddyddiad pwysig i'w nodi yn y calendr, sef Bore Sul, 3 Mehefin - sef Gwasanaeth Boreol yr Urdd yng Nglynllifon. Bydd aelodau o Blwyddyn 3 i fyny yn cymryd rhan yn y Côr a bydd croeso cynnes i blant ieuengach ynghyd â'u rhieni ymuno yn y Gwasanaeth hyfryd hwn. Trefnir bws i gludo aelodau Bosra, Tabernacl, Capel Coch ac Ebeneser.

Cynhelir Cymanfa'r Methodistiaid ar bnawn Sul, 24 Mehefin yng nghapel Seiloh, Tregarth. Cymerir y rhan dechreuol gan Ysgol Sul Bosra. Hyderir y gall pob plentyn gymryd rhan eleni. Bydd cyfle i gymdeithasu a chael te bach ar ôl y Gwasanaeth.

GWELLHAD. Ein cofion anwylaf at bawb ohonoch sydd wedi bod yn sâl yn ystod y tywydd cyfnewidiol yma. Rydym yn falch o glywed fod y Parch Tegid Roberts yn dal i wella. Dymunir adferiad iechyd buan i Nant wedi ei thriniaeth hithau yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

CARNIFAL. Cynhelir y Carnifal ym mis Gorffennaf, cyn i'r ysgol gau am wyliau'r haf. Ar 19 Ebrill trefnwyd Disgo i ddewis Brenhines a'i Gosgordd. Bydd y manylion yn y rhifyn nesaf. Mai 11 cynhelir 'Noson Ffilmiau' yn Neuadd yr Eglwys - plant iau am 6 o'r gloch a'r plant hŷn o 7.30 ymlaen.

ARHOLIADAU. Y mae tymor yr amrywiol arholiadau wrth y drws; dymunir pob dymuniad da i bob un ohonoch a phob bendith i'r dyfodol.

DIOLCH. Wedi blynyddoedd maith o wasanaeth clodwiw i'r ardal hon ar Gyngor Gwynedd, dymunir diolch i Pat Larsen am ei gwaith fel Cynghorydd gweithgar a chydwybodol ac am lwyddo i ymateb mor gadarnhaol i ddyheadau cynifer o drigolion y fro. Bro sydd mor agos at ei chalon. Diolch, Pat.

PEN - BLWYDDI A R B E N N I G . Llongyfarchiadau i ti, Elen Hughes, Waun, ar achlysur dy ben-blwydd yn 18 oed yn ddiweddar. Pob bendith i ti i'r dyfodol.

Llongyfarchiadau mawr hefyd i Nannie Evans, 26 Bryntirion, ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 mlwydd oed ar 16 Ebrill. Pob bendith oddi wrth y teulu i gyd, ffrindiau a chymdogion. Ymlaen rŵan am y telegram!

Gwesty Dolbadarn Llanberis

Nos Wener MAI 11eg. 7.30

Noson Hwyllog yng nghwmni...

HOGIA'R BONC

Yr Elyt

Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Eryri 2012

Pris Mynediad £4.

TOCYNNAU AR GAEL YN YSGOL DOLBADARN
A GWESTY DOLBADARN LLANBERIS **NEU AR Y DRWS**

ECO'r Wyddfa

Cefnogwch ein hysbysebwr

Mrs Dilys Baylis, Llanberis

Bu farw Mrs Dilys Baylis, gynt o Meirionfa, Llanberis, ym Mhlas Pengwaith, nos Iau, Mawrth 22, yn 99 mlwydd oed. Cawsai ei geni ym mis Mehefin 1912, a'i magu yn Nhanyffordd, Dinorwig, cyn i'r teulu symud i Lanberis, i Stryd Warden i ddechrau ac yna i Meirionfa. Yn ddwy ar bymtheg oed, aeth i weithio i Barkings Side, Essex, lle bu'n hyfforddi fel nyrs yn yr ysbyty oedd yn gysylltiedig â chartref a sefydlwyd gan Dr Barnado. Cadwodd ddyddiadur tra bu yno, gan nodi ynddo ddiwyddiadau'r dydd a'i hargraffiadau. Nid yw'n syndod iddi barhau i gadw dyddiaduron ar hyd ei hoes o gofio bod sgwennu a myfyrio mor bwysig iddi. Parhaodd y cysylltiad â Barnado's dros y blynyddoedd gan iddi weithio i godi arian at waith yr elusen.

Ond wedi chwe blynedd yn Barkings Side, dychwelodd i Lanberis i helpu yn siop y teulu yn Meirionfa. Bu yno am ddeng mlynedd cyn priodi â Bil Baylis ac ymgartrefu yn Llain Hir, Brynrefail. Dyma gyfnod prysurdeb magu teulu, a'r teulu hwnnw yn y man yn cynnwys pedwar o blant, Tim, Gwen, Eric ac Emlyn. Ac yna, yn 1952, daeth adref i Lanberis i gymryd y siop drosodd wedi marwolaeth ei thad. Bu'n cadw'r siop wedyn am yn agos i ddeng mlynedd ar hugain, nes iddi ymddeol yng ngwanwyn 1980, a hithau'n tynnu at y 70 oed. Ond roedd yng ngwanwyn ei dyddiau o hyd, gan iddi aros ym Meirionfa am dros ugain mlynedd arall, nes i'w hiechyd ddirywio. Roedd, felly, yn ei nawdegau erbyn iddi symud i Blas Pengwaith.

Gwasanaethodd yn ffyddlon o fewn ei milltir sgwâr am flynyddoedd lawer. Roedd croeso cynnes a sgwrsio difyr bob amser yn y siop a roddodd fywoliaeth iddi, wrth iddi ymdrechgu i fagu'r plant a gwneud y gorau drostynt ar hyd y blynyddoedd. Ond rhan o'r stori yn unig oedd y siop a'r teulu. Roedd dau beth arall yn bwysig iddi. Y capel a'i weithgareddau oedd y naill, neu'n fwy cywir, ei chrefydd a'i ffydd a'i hargyhoeddiadau dyfnion. Bu'n ffyddlon a gweithgar yng nghapel Gorffwysfa ac yn ddiweddarach yng Nghapel Coch. A sgwennu llythyrau, cerddi, caneuon, myfyrdodau ac, wrth gwrs, emynau a charolau, oedd y llall. Ond mewn gwirionedd, un peth y ddau i Mrs Baylis, gan mai codi o'i ffydd a wnâi'r rhan fwyaf o'r pethau a sgwennodd erioed.

Mae gen i nodyn bach a anfonodd ataf cyn i mi ddod yn ôl i'r ardal yn weinidog yn 1988. Nodyn bach syml ydyw, prin ddwy frawddeg ac adnod; ond roedd cynnwys adnod ynddo mor nodweddiadol ohoni, a hithau wrth ei bodd yn pori yn yr Ysgrythur. Ychydig ddyddiau cyn iddi farw, cyhoeddwyd cyfrol o'i chaneuon hi a'i brawd, y diweddar Edwin Lloyd Jones. Mor braf yw meddwl iddi weld y gyfrol honno y byddai wedi bod mor falch ohoni er cof am ei brawd.

Roedd yn annwyl a charedig a chroesawgar. Byddai drws Meirionfa wastad yn agored, a rhywun yn galw heibio o hyd. Roedd wrth ei bodd efo pobl, a sgwrsio a thrafod a gwneud ffrindiau yn dod yn rhwydd iawn iddi. Cai bleser mawr yn datblygu a chofnodi'r 'ideas' - dyna'i disgrifiad hi ei hun o'r pethau y byddai'n myfyrio arnynt. Byddai wrth ei bodd yn cyfuno'r geiriau â lluniau - lluniau bach a wnâi hi ei hun neu luniau y byddai wedi eu torri o'r papur newydd neu gylchgrawn. Cefais lond ffeil ohonynt yn anrheg ganddi, a theitl priodol ar ei blaen, 'Hand-painted ideas'.

Roedd ganddi ddawn arbennig i gyfieithu emynau, fel y dangoswyd rai blynyddoedd yn ôl pan ddarlledwyd Songs of Praise o Lanberis. Roedd Mrs Baylis yn ei nawdegau erbyn hynny, ond pan sylwedolwyd nad oedd cyfieithiad o emyn Lewis Valentine, 'Dros Gymru'n gwlad', i'w gael ar gyfer yr isdeitlau, cafwyd cyfieithiad celfydd dros ben ganddi o fewn awr neu ddwy. Ac roedd yn briodol iddi gyflawni'r fath gamp o gofio'r baich oedd ganddi dros ein gwlad a'i hiraeth am weld Cymru a'r fro hon yn dod i wybod am y Crist y credai ynddo ac y ceisiai ei ddilyn. Mae cymaint o'i cherddi a'i charolau wedi eu haddurno â lluniau o Lanberis ac Eryri a symbolau o Gymru. Pan edrychais hi ar y mynyddoedd, gwelais eu harddwch, ond meddyliai hefyd am Graig yr Oesoedd. Pan welais'r orsaf drydan yn Ninorwig, meddyliai am nerth y Goruchaf, neu a defnyddio un o'i hoff eiriau, Pŵer y Goruchaf. Roedd Mrs Dilys Baylis am weld Cymru'n eiddo i Grist. Hynny a wnâi iddi osod adnodau ac emynau yn ffenestr y siop dros y blynyddoedd, yn dystiolaeth i bawb â'u gwelais.

Byddai'n sgwennu at bob math o bobl, yn ffrindiau, cymdogion, gweinidogion, gwleidyddion a hyd yn oed brif weinidogion ac arlywyddion, a chael ateb yn amlach na heb. Byddai hefyd yn defnyddio'i dychymyg, ac yn sgwennu at ambell un nad oedd gobaith ganddi gael ateb ganddynt. Un o'r bobl hynny oedd Dafydd Jones, o Gaeo, a fu farw yn 1777. Sgwennodd ato rhwng Dolig a diwedd y flwyddyn yn 1995 gan gyfeirio at dri o emynau Dafydd Jones, ac mae'r defnydd a wna o'r emynau yn y llythyr hwnnw'n awgrymu dyfnder ei ffydd a'i hargyhoeddiad Cristnogol.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Gwen, Eric ac Emlyn a'r teulu cyfan yn eu colled.

Parchedig John Pritchard

Yn ôl ein hadnabyddiaeth ohoni, 'Mrs Baylis, Mrs Dilys Baylis, Dilys Baylis, Dilys, a D.B.' (yn ei gweithiau llenyddol).

Yn ystod fy nghyfnod yn Llanberis, roedd Mrs Baylis yn ei hanterth. Bob tro ac ymhle bynnag y cyfarfyddem, roedd gwên frwdfrydig ar ei hwyneb, a hithau bob amser yn hynaws a chwrtais. Roedd ganddi iaith raenus, a bron yn ddieithriad byddai pob sgwrs yn troi'n seiat. Crefydd, neu'n gywirach, cred, fyddai'r pwnc sylfaenol, er bod ei diddordebau diwylliannol yn eang. Roedd yn wraig alluog, feddylgar ac ysbrydol ei bryd. Roedd anian yr athronydd ynddi wrth ofyn cwestiynau mawr, dwfn, fel 'Pwy ydw i? Roedd anian y diwinydd ynddi hefyd wrth ymgodymu ag atebion i'r fath gwestiynau. Roedd ganddi hefyd ddoniau creadigol cryf fel bardd a llenor yn y ddwy iaith, heb sôn am y ddawn i wneud lluniau bach addas gydag ambell emyn neu ysgrif. Sawl gwaith y clywais i'r sylw, 'Beth fyddai hanes Dilys pe bai hi wedi cael addysg bellach?' Mae'n debyg y byddem wedi colli llawer ac wedi ennill llawer, ac y byddai hi wedi ennill cynulleidfa fwy.

Un ateb a roes Mrs Baylis i'w chwestiwn, 'Pwy ydw i?' oedd 'I am an idea'. Nid dyna ddywedem ni amdani, ond person o gig a gwaed a fu'n fam ac yn nain, yn nyrs ac yn cadw siop, yn aelod eglwysig ac yn athrawes Ysgol Sul, yn llenor ac yn fardd, yn llythyrwraig ac yn sgwrswraig, yn gymydog ac yn ffrind. Na, nid syniad oedd hi ond person brwdfrydig a chymodlon yn byrlymu o syniadau. A chât'r ateb i'w chwestiynau mawr yn y Ffydd Gristnogol, neu'n hytrach yn y Crist y mae Cristnogaeth yn tynnu ein sylw ato. Rhoddodd sylw mawr i enedigaeth Iesu yn ei gwaith, 'y newyddion da o lawenydd mawr', a hawdd deall hynny am fod rhyw lawenydd heintus yn ei chymeriad a rhyw obaith bythol yn ei hagwedd at fywyd. Er mor hoff oedd hi o gapel Gorffwysfa, ac er mor drist oedd ei weld yn cau, roedd Cristnogaeth yn fwy nag adeilad iddi. Pobl yn dod ynghyd i addoli, ac yn mynd allan i wasanaethu gydag ysbryd cymodlon, oedd Cristnogaeth iddi. Roedd cymod a heddwch yn ganolog i'w thystiolaeth. Oherwydd ei daliadau heddychol, dioddefodd y Dilys Baylis ifanc lawer ar law ei chyd-aelodau a'i gweinidog ar y pryd. Ond ni soniodd air am hynny wrthyf; a welais i'r un arwydd o chwerwedd yn sgil y profiad hwnnw. Gwelwyd ynddi fodd bynnag, fel ymhob un ohonom i ryw raddau, dyndra'r ffydd, rhwng yr ysbrydol a'r materol. Bu ar un adeg dan ddylanwad sect y Christian Science gyda'i bwyslais mawr ar yr ysbrydol ar draul y materol; ond eto, yn ei chyfrol mae'n diffinio crefydd fel '99% practice a 1% idea'.

I weinidog, roedd Dilys Baylis yn unigryw gan ei bod yn barod i ymateb i bregeth, a'i thrafod, yn arbennig os byddai rhyw ogwydd neu sylw wedi ei chyffwrdd. Yn aml, ar adegau felly, byddai naill ai'n sgwennu llythyr i'r Goleuad neu'n cyfansoddi cerdd. Gwnâi sylw weithiau ar derfyn oedfa, ac yna os byddwn yn siop Meirionfa ymhen deuddydd neu dri, caem drafodaeth ehangach. Ond nid ar y lefel hon yn unig yr oedd yn hwb i'r galon ac i'r gwaith, ond fel aelod ffyddlon, athrawes Ysgol Sul, seiadwraig frwd, un a gymerai ran yn gyhoeddus ac a gefnogai achosion da. Gwnâi bob dim yn llawen gyda graen a gwreiddioldeb.

Wrth fy nghoesawu i Lanberis, lluniodd benillion llawn hiwmor tawel. Felly hefyd pan briodais ag Ann ac wrth i ni fel teulu ymadael â'r pentref. Roedd yn berson o ddifri; ond tybed ai gwirionedd ynteu dafod yn y boch a barodd iddi ddatgan: 'In Wales, deeds are females, words are male!' Cefais beth wmbredd o'i gwaith creadigol dros y blynyddoedd, gyda'r cerdyn Nadolig gan amlaf, oni bai bod achlysur arall wedi ei chyffroi. Yn aml, deuai'r emyn neu garol gyda thôn o waith ei brawd Edwin: partneriaeth arbennig y bardd a'r cerddor. Mae ei chyfieithiadau'n ddeheuig iawn, a'i chyfieithiad o Little Donkey yn cyfateb yn rhyfeddol i'r gwreiddiol o ran sain a naws. Cefais fy swyno gan ei charol, 'Perl Nadolig', ar y dôn Minffordd, sy'n cloi fel hyn:

Perl o fynwes Duw ei hunan.

Perl i gyfoethogi'r byd;

Nid oes debyg iddo'n unman,

Awn i Fethlem at ei grud.

Y gwaith olaf a dderbynias ganddi oedd carol ar y dôn Nant Peris. A'r tro olaf i mi gael sgwrs hefo hi oedd yng nghyfarfod 'Cofio Cau'r Chwarel' yn yr Amgueddfa Lechi yn 2009. Mae ei llais i'w glywed o hyd yn yr Amgueddfa'n darllen ei hysgrif, 'The Quarry Hooter', a gyfansoddwyd pan gaewyd y Chwarel. Roedd cau'r Chwarel yn ddiwedd pennod go fawr yn hanes Llanbêr, ond agorwyd pennod newydd, os gwahanol, gyda'r Gwaith Trydan. Pan gaewyd Gorffwysfa, agorwyd pennod newydd gyda Gorffwysfa a Phreswylfa yn ymuno yng Nghapel Coch. A chyda'i hymadawiad hi ar drothwy ei chant daeth pennod arall i ben yn hanes y pentref, ac yn arbennig yn hanes ei theulu. Ond mae pennod newydd yn agor i Dilys Baylis ei hun, ac iddynt hwy a'r pentref hebddi. Yn 'The Quarry Hooter' dywed, er i'r corn ddistewi am byth bod ei swm yn dal yn ein calonnau. Ac er i'w llais croyw ac unigryw ddistewi, fe'i clywir eto nid yn unig yn yr Amgueddfa ond yn y galon. Dyma gloi gydag un o'i dywediadau bachog hi ei hun: 'Think and thank'. Cymerwn ddalen o'i llyfr wrth feddwl yn werthfawrogol amdani a'i chyfraniad, ac wrth ddiolch i Dduw amdani.

Mrs Dilys Baylis, Llanberis

Mae'n rhyfedd sylweddoli mai gwraig ganol oed ifanc, yn ddeniadol, yn fam i dri o blant ysgol ac yn siopwraig brysur oedd Dilys Baylis pan gyrhaeddais Llanberis yn niwedd y 50'au. Byddai yna rhyw fynd a dod parhaus i Meirionfa, ond er mor llawn gallasai'r siop fod ar brydiau, byddai gan berchennog y siop ddigon o amser am sgwrs; a honno bob amser yn sgwrs ddifyr a graenus. Petaech yn digwydd galw ar brynhawn distaw caech fynd drwodd i'r gegin, ac wedyn byddai llifddorau'r sgwrs yn agor a'r job oedd cael dianc er mwyn gwneud

Dilys Baylis

Bri Dilys sy'n ysbrydoli - ei gobaith
a'i gwên sy'n rhoi egni;
Ei hiaith wâr fo'n iaith i ni,
A'i neges i'w chefnogi.

J.O.

(*Daw'r dyfyniadau o'i chyfrol Lloffion Nadolig/Christmas Greetings (Gwasg Gwenlyn Evans, 1971; cyfrol a gyflwynwyd i'r plant.)
Parchedig John Owen, Rhuthun

galwadau eraill. Nid oedd yr ysfa barddoni wedi cydio ynnddi o ddifri pan oeddwn yn Llanberis, ac felly ni welais gymaint â hynny o'i gwaith. Yn ddiweddarach, adeg y Nadolig a Diolchgarwch, er enghraifft, y byddwn yn derbyn pecyn o'i gwaith.

Ond yn y capel y cefais fwyaf o gwmni Dilys. Yn anaml y byddai'n colli oedfa gan wrando'n astud ar bregeth a chadw nodiadau gan amlaf. Byddai yr un mor ffyddlon yn y Seiat gan gyfrannu'n rheolaidd a mynegi barn yn huawdl.

Wedi imi symud o Llanberis bu bwlch o nifer o flynyddoedd cyn i mi fedru dod yn ôl i bregethu. Erbyn hynny roedd y tân wedi dechrau diffodd, ond yn rhyfedd iawn blodeuodd ein perthynas yn fwy wedi i Dilys fynd i Blas Pengwaith.

Byddai Dilys yn dweud yn aml, hyd yn oed o ddyddiau cynharaf Llanberis, ein bod yn perthyn. Ni lwyddais erioed i ganfod natur y berthynas, ond ychydig fisoedd yn ôl daeth perthynas arall i'r fei gan gadarnhau bod Dilys wedi bod yn iawn o'r cychwyn. Felly nid teyrnged i gyn aelod sydd yma ond un i gyfnither - ac mae hynny'n brafiach o lawer.

Meirion Lloyd Davies

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

BABANOD BACH NEWYDD. Llongyfarchiadau i Egryn a Sue, Cynlas, ar ddod yn daid a nain i efeilliaid. Ganwyd Dafydd Lloyd a Gareth Rees i Glesni ac Ian, eu mab.

Ganwyd merch, Kayla, i Gavin a Steph, Stad Bro Waun, wyres fach i Sylvia Thomson. Llongyfarchiadau i chwithau hefyd.

DATHLU PEN-BLWYDD. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Amy Thomson, Bro Waun, fu'n dathlu cyrraedd ei un ar hugain mlwydd oed yn ddiweddar.

Dathlu cyrraedd ei ddeunaw oed fu Gavin John, Bryn Celyn. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da iti, Gavin. Dymuna Gavin ddiolch i'w deulu a'i ffrindiau am y cyfarchion, cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei ben-blwydd.

D Y W E D D I O . Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Bryn a Tanya ar eu dyweddiad. Dymunwn bob hapusrwydd i'r cwpwl ifanc fydd yn ymgartrefu yn Gwynllys.

P E N - B L W Y D D PRIODAS. Llongyfarchiadau i Luned a Dan Roberts, Sŵn y Gwynt, fu'n dathlu eu Priodas Aur yn ddiweddar.

DYMUNWN yn dda i'n pobl ifanc fydd yn sefyll arholiadau allanol pwysig yn yr ysgolion a'r colegau yn ystod yr wythnosau nesaf.

GWELLA. Rydym yn falch o weld Eurwyn Williams, Parc, yn gwella wedi iddo orfod mynd yn ôl i'r ysbyty a chael triniaeth. Rydym hefyd yn falch o weld Sylvia Thomson, Bro Waun, yn gwella wedi iddi

gael triniaeth yn yr ysbyty. Anfonwn ein cofion tyner at Mrs Laura Pierce, Mrs Sarah Lewis, Tref Eilian a Mrs Jane Roberts, Stad Bro Waun, sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd. Dymunwn wellhad buan ichwi eich tair.

CYDYMDEIMLAD. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Doctor Helen a fu'n feddyg yma yn y Waun, yn ei phrofedigaeth o golli ei chydymaith annwyl.

Anfonwn ein cydymdeimlad dwys hefyd at deulu Pat Williams, Llanberis. Bu'r teulu yn byw yma am flynyddoedd lawer.

Cydymdeimlwn hefyd â Mr a Mrs Jones, Treflys. Daeth y brofedigaeth o golli brawd Mr Jones i'w rhan ychydig wythnosau yn ôl.

COLLED I'R PENTREF. Yn wir bydd colli gwasanaeth y siop yn golled fawr inni yn y Waun. Diolch i Cled a'r tim am drïo eu gorau i gadw'r siop ymlaen inni.

Os oedd rhai yn prynu eu papur bro, yr Eco, yn y siop ac yn awyddus i barhau i'w dderbyn bob mis cysylltwch â un o'r dosbarthwyr yn y pentref neu gyda mi. Fe wnawn ein gorau i drefnu ichi ei gael.

CLWB 300. Enillwyr y Clwb 300 am fis Mawrth oedd: £30: Mr Duncan Brown, Gwelfor, Ffordd Ceunant; £20: Mrs S.M. Parkinson, Gwynfa; £10: Mrs Nan Roberts, Pant Afon.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar Ebrill 5 croesawodd Catherine Jones, y Llywydd, Mrs Rose Evans o Lanfairpwll. Rhoddodd Mrs Evans arddangosiad i ni o sut i addurno cacennau. Ar

ôl gorffen cafodd yr aelodau flasu rhai o'r cacennau bach. Roeddynt yn neis iawn hefyd! Enillwyd y raffl gan Catherine. Yn y cyfarfod nesaf, ar 3 Mai, bydd y penderfyniad ar gyfer y Cyfarfod Blynyddol yn Llundain yn cael ei drafod

gyda Pat, fel cynghorwr o'r Ffederasiwn.

TAID A NAIN. Llongyfarchiadau i Steve a Carys, Ty'n Cae, ar enedigaeth wyres fach, Ana, merch i'w merch, Siân a'i chymar, Wil.

MERCHED Y WAWR

Cynhaliwyd cyfarfod y gangen nos Iau, 29 Mawrth a'n gwestai y tro hwn oedd Mr Brian Thirsk o Gwmni Sylfaen yng Nghaernarfon. Rhoddodd sgwrs eithriadol o ddifyr i ni am ei deulu a'i blentyndod yn Sir Fôn a'i addysg a sut y bu iddo fynd i faes Gwaith Cymdeithasol a gwaith gyda phobl ifanc. Mae pawb sydd yn adnabod Brian yn gwybod am ei bersonoliaeth hwyliog a llawn direidi a bu llawer o chwerthin wrth iddo ein tywys i lefydd amrywiol megis Coleg Harlech, Prifysgol Abertawe a Rwsia a sôn am sawl digwyddiad doniol a thro trwstan ar y ffordd. Ond trwy'r cwbl, roedd y gofal am bobl eraill, eu lles a'u buddiannau sydd wedi ei arwain i gysegru ei yrfa i weithio gyda'r difreintiedig mewn cymdeithas yn hollol amlwg. Roedd wedi dod â nifer o albymau difyr gydag ef ynghyd â doliau Rwsiaidd, un yn cynnwys arweinwyr enwocaf yr Undeb Sofietaidd

yn yr 20fed ganrif. Diddorol yn hytrach na del! Rydym yn ddiolchgar iawn i Mr Brian Thirsk am sgwrs mor ddifyr. Cynhelir ein cyfarfod nesaf nos Iau, 26 Ebrill yn y Ganolfan. Y pwnc dan sylw yw 'Pawb a'i Drysor' a gwahoddir aelodau'r gangen i ddod ag unrhyw eitem sydd yn werthfawr iddynt a dweud ychydig o eiriau amdani. Wedyn, nos Wener, 1 Mehefin, bydd y gangen yn mynd i weld Sioe Sbri yn Galeri, Caernarfon. Cynhyrchiad newydd sbon gan Gwmni'r Frân Wen ar gyfer Eisteddfod yr Urdd yw hwn. Beth Angell sydd wedi ysgrifennu'r sgript a'r cyfarwyddwr yw Iola Ynyr, un o'n haelodau. Bydd 130 o bobl ifanc o ardal Eryri yn cymryd rhan a chymharwyd y sioe â'r sioe Americanaidd Glee. Bydd y sioe yn rhedeg tan nos Lun, 4 Mehefin, ac mae'r tocynnau'n mynd yn gyflym. Felly os nad ydych wedi prynu tocyn eisoes, gwell brysio.

E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE, Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU



Radio Brynrefail

Yn darlledu pob awr ginio ac i'w glywed yn y cyntedd a'r ffreutur y mae Radio Brynrefail yn ddatblygiad newydd yn yr Ysgol. Prynwyd yr offer wedi ymgeisio a llwyddo i gael grant gan Gyngor Gwynedd er hybu defnydd o'r iaith Gymraeg. Felly, mae'r gerddoriaeth a chwaraeir yn ystod yr awr ginio yn adlewyrchu diwylliant Cymru ac yn amredeg o Elin Fflur i Y Bandana.

Yn ein llun y mae Chris Roberts ac Eleri Sweeney sy'n darlledu trwy'r awr ginio dydd Llun ac y mae

Tîm Ysgolion Cymru dan 18

Y tîm wedi ymgynnull o flaen eu gêm yn erbyn Gogledd Iwerddon yn Dungannon ar nos Wener, 20fed Ebrill. Cafodd y gêm ei darlledu yn fyw ar Sky.

Yn y rhes flaen, ar y chwith eithafol, cyn-ddisgybl Jamie McDaid sydd yn awr yn astudio yng Ngholeg Menai. Yn y rhes gefn, yr ail olaf o'r chwith, Gruff John, is brif fachgen eleni sydd hefyd yn chwarae i Lanrug Unedig.

gobeithion gan y ddau i ddatblygu cyfweiliadau gyda staff a disgyblion yn ystod y tymor nesaf.

Mae'r system darlledu newydd hefyd ar gael i'w ddefnyddio gan ddisgyblion ysgolion cynradd y dalgylch a byddant yn dod i Brynrefail yn eu tro i ddarlledu.

Mae effaith y gerddoriaeth yn cael dylanwad gwefreiddiol hyd yn oed ar y staff. Pan welwyd Mr Harri Jones ar ddyletswydd cinio, fel rhyw fersiwn Llanrug o Eric Morcambe, yn sgipio i guriad y rhythmau - Wel! Oes rhaid dweud mwy?

“Y byd i'n disgyblion a disgyblion i'n byd”



YMRYSON SIARAD CYHOEDDUS URDD CYMRU GOBAITH

Ar ddydd Llun, 26ain Fawrth, daeth Dei Tomos, beirniad timau siarad cyhoeddus Eisteddfod yr Urdd 2012 i Ysgol Brynrefail. Yr oedd criw o'r chweched dosbarth wedi dangos diddordeb mewn cystadlu yn y gystadleuaeth siarad gyhoeddus hon. Dyma'r tro cyntaf i Ysgol Brynrefail gymryd rhan yn y gystadleuaeth a mwynhaodd y tîm y profiad yn fawr.

Aelodau'r tîm oedd Gwen Thomas, Eleri Sweeney, Gethin Griffiths a Chris Roberts. Cynhaliwyd y gystadleuaeth yn Llyfrgell yr Ysgol gyda Ruth Roberts, uwch ysgrifennydd yr Urdd, yn amseru'r drafodaeth.

Bu'r tîm yn ymarfer ar gyfer yr ornest ers nifer o wythnosau gan drin a thrafod amrywiol bynciau fel paratoad ar gyfer y gystadleuaeth ei hun. Tasg Gwen, fel cadeirydd y tîm, oedd dewis tri phwnc o'r chwech posibl ar gyfer y tîm. Dewisodd y pynciau canlynol:

1. Mae'n hollol resymol disgwyl i athletwyr ac eraill gynrychioli tîm Prydain yn y gemau Olympaidd.
2. Mae'r hyn a elwir y 'sin roc' yn marw ben ei thraed a chorau bellach ydi'r roc a rôl newydd.
3. Gan fod graddedigion a phobl ifanc a gafodd addysg bellach yn debyg o ennill mwy o gyflog na phobl eraill onid iawn yw disgwyl iddyn nhw dalu eu ffioedd Coleg? Aeth y tîm ati i drafod y pynciau uchod yn ddeheuig iawn a phrofi fod ganddynt wybodaeth sylweddol am bynciau llosg y dydd. Ar ddiwedd yr ornest dywedodd Dei Tomos ei fod wedi mwynhau'r drafodaeth yn arw a bod y pedwar disgybl wedi dangos gallu arbennig i ymateb yn ddoeth i bynciau heb unrhyw gyfle i baratoi eu hunain o flaen llaw.

Cawn glywed yn fuan pwy fydd y tri thîm o'r 46 a ymgeisiodd ar draws Cymru a gaiff y fraint o gystadlu ar faes Eisteddfod yr Urdd yng Nglynllifon mis Mehefin.



CLUDO'R TORS OLYMPAIDD

Y mae 8000 o dyllau yn y Tors Olympaidd euraidd sydd yn cynrychioli yr 8000 o bobl fydd yn ei gludo ar ei daith o gwmpas Prydain. Mae 62,218,761 o bobl yn byw ym Mhrydain ac felly mae ganddoch chi siawns 1 allan o 7,777 i gael eich dewis. Yr oedd y Pwyllgor Olympaidd yn edrych am bobl arbennig iawn felly!

Ar 28ain Fai 2012 bydd y Tors Olympaidd yn cael ei gludo trwy ddinas Bangor. Ac yn ei gludo? David Rhys Owen Parry, blwyddyn 9, sydd yn hanu o bentref Deiniolen.

Rhwng 4 a 7 mlwydd oed yr oedd Rhys yn dioddef o 'leukaemia' ac yn sâl iawn ac roedd yn gorfod treulio misoedd hir yn ei wely. Yn wir rhaid oedd brwydro i gael cerdded.


Mae Rhys nawr yn aelod o Glwb Athletau Treborth ym Mangor. Mae'n ymarfer yno pob wythnos, yn redwr, yn glwydwr ac yn neidiwr. Yn wir mae Rhys weithiau yn cynrychioli ei glwb athletau mewn cystadlaethau.

Yr ydym wedi hen arfer â dathlu llwyddiant ein disgyblion ym Mrynrefail ond y mae stori Rhys yn unigryw ac yr ydym i gyd yn dathlu gyda Rhys a'i deulu yn ei lwyddiant a'r clod ddaeth iddo am frwydro mor galed yn ei fywyd ifanc.

Hogyn Brynrefs – da de !

Busnesau Cynnar.

Gan Gareth Pritchard (gynt o Dan y Coed) y daw'r hanesion am Siop Beics ei daid ac Olwyn Ddwr Huw. Maent yn enghreifftiau arbennig o ddyfeisgarwch a llygad busnes unigolion yn ateb gofynion eu hoes. Ond y maent hefyd, wrth gwrs, yn dangos fel yr oedd byd busnes yn rhuthro yn ei flaen ac yn gadael y busnesau bach ar ôl – a'r un yw'r stori hyd yn oed heddiw, wrth i'r archfarchnadoedd hawlio busnes y cyhoedd a siopau bach pentrefol a chanol trefi yn dioddef.



Siop Beics Taid.

O Awst 1895 hyd tua 1925 y trên chwael oedd yn cario'r gweithwyr o'r Felinheli i'r Gilfach Ddu, Llanberis. Gyda rhyw 20 o gerbydau a rheini'n cario 60 ymhob un, cludid cyfanswm o 1200 o chwaelwyr i'w gwaith bob dydd! Ym Mhontrhythallt (Llanrug) cyplysid saith cerbyd at y trên gan godi dros 400 o chwaelwyr o'r Waunfawr, Ceunant, Tanycoed a Llanrug.

Sut 'roedd rhain yn cyrraedd Pontrhythallt? Ar gefn beic fel arfer, a dyna sut mae Siop Beics Taid, yn Nhan y Coed, Llanrug, yn dod i'r stori. Gyda'r holl feiciau ar y ffordd 'roedd William John Humphreys yn o brysur yn ystod y cyfnod yma! Sied sinc oedd y siop yn Nhan y Coed ac 'r oedd galw mawr am ei wasanaeth, a dywedir y byddai gan Taid, ar adeg gwyliau fel y Groglith a'r Pasg, dros hanner cant o feiciau i'w trwsio a chai gymorth ei fab Huw wrth y gwaith! Mae'r llun uchod yn dangos bod tipyn o brysurdeb.

Yng nghanol dauddegau'r ganrif ddiwethaf dechreuodd Crossville a Bysus DM (Llanrug) gario'r gweithwyr i'r chwael ac yn ddiweddarach Bysus Gwyn (Whiteway) a daeth llai o alw am feiciau (a thrên!).

Yn ddiweddarach bu'n gwneud yr un gwaith yn Llanberis tu ôl i Garej Pritchard ar y Stryd Fawr.

Ni ddaeth trydan i Dan y Coed hyd fis Medi, 1951, ond 'roedd gan Taid gyflenwad yn ei siop o ganol y dau ddegau—diolch i'w fab Huw.

Olwyn Ddwr Huw

'Roedd y siop beics yn Nhan y Coed yn unigryw am ei bod yn cael ei goleuo â thrydan ym 1925, dros chwarter canrif cyn i drydan fod o fewn cyrraedd yr ardal ym Medi 1951!

Sut 'roedd hynny? 'Roedd afon fechan yn rhedeg drwy'r ardd a phenderfynodd Huw, mab William John, adeiladu olwyn ddwr a chwt bychan a chyplysu'r cyfan hefo'r siop beiciau.

Dydi'r cyfan ddim yn edrych yn soffistigedig iawn, ond honnir ei fod yn gweithio. Rhyw hen ddarnau o bren o fan hyn a fan draw a ddefnyddiodd i adeiladu'r olwyn!



CHWILOTA



Snowdon Valley Hotel, Llanberis.

Gyda diolch i Eifion Roberts am y llun o westy'r Snowdon Valley, y soniais amdani ynglyn â pheidio rhoi trwydded iddi i werthu alcohol. Mae'r llun o bosibl yn dyddio rhywdro rhwng 1870 a 1910. Sylwch ar y seren ar ochr chwith y darlun: tybia Eifion mai arwydd y Seiri Rhyddion ydyw, ac mai yma roeddent yn cyfarfod yn Llanberis. Oes rhywun all gadarnhau hyn?

Un o'r gwrthwynebwyr i adnewyddu'r drwydded oedd y parch J. Evans Owen, gweinidog Capel Annibynwyr Nant Padarn.



Temperance House, Nant Peris.

William Arthur Williams, Bethel roddodd y wybodaeth am y gwesty hwn, sef Dwyfor/Tan y Capel erbyn heddiw. Yn ei ôl ef, teulu Meredydd Closs ddatblygodd y ty fel 'guest house' a rhoi iddo yr enw Peris Temperance House.

Waliau Cerrig Sengl.

Gan W.Arthur Williams y daeth yr wybodaeth am y waliau sengl ym Mhen Gorffwysfa hefyd. Yr oedd y cerrig o gwmpas yn berffaith o ran maint a hyd i godi wal sengl. Roeddent yn gwarchod dau gae gwair Gorffwysfa. Yno roedd Owen Rawson Owen, perchennog y gwesty, yn cadw dwy fuwch ar gyfer anghenion y gwesty. Tom Roberts (Twm Cae Fran) oedd yr olaf iddo'i gofio yn pladuro y ddau gae, a hynny yn ystod y 1950'au cynnar.

Mae'r gwaith ar chwilio i hanes y Vaynol Bakery yn Neiniolen yn parhau. Mwy am hwnnw i ddod gobeithio.

Felly, dyna'r cyfan am y mis hwn. Gyda diolch i bawb a gysylltodd gyda gwybodaeth werthfawr a lluniau. Cofiwch anfon unrhyw ymholiad i

Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. Ffôn: 01286 673515.

Cyngor Hen Bennill.

Paid mynd a dim i gyfraith, Ti heli bethau'n waeth; Os cei di'r cynn a'r gynffon, Y twrna gaiff y llaeth.

Dywediadau a Diarhebion.

Arferiad yw meistr pob gwaith. Mae cyw o frid yn well na chyw o goleg.

Mae gwaed yn dewach na dwr, ond yn berwi ynghynt.

Pryd i Bawb

Arlwyo at bob achlysur yn unrhyw leoliad Bwffe blasus o safon



- Priodas •
- Cyfarfodydd busnes
- Bedydd/Parti/Te angladd
- Basged Picnic
- Bwyd yn unig neu gwasanaeth llawn

Cerid Mackinnon
Ffôn: 01286 673190
Symudol: 07774 925502



YR EGLWYS BRESBYTERAIDD

OEDFA'R PASG

Daeth cynulliad cryno i oedfa arbennig y Pasg Bnawn Sul Ebrill 8fed. Cafwyd gwasanaeth bendithiol dan arweiniad y Parch Geraint Roberts Porthaethwy pryd y gweinyddwyd y Sacrament o Swper yr Arglwydd.

YMADAWIAD AELOD

Colled arbennig i ni fel Eglwys fu ymadawiad Maurice Jones Meillionen ar Fawrth 20fed yn 90 mlwydd oed. Oherwydd afiechyd bu i ni golli ei gwmniaeth o'n gwasanaethau yn ddiweddar ond fe'i cofiwn am ei ffyddlondeb nodedig dros y blynyddoedd i'r oedfaon ar y Sul a chyfarfodydd amrywiol yr Eglwys, ei barodrwydd i gynorthwyo a chymryd rhan, trylwyredd ei waith a'i farn ddoeth ar bob achlysur. Buom yn ffodus fel aelodau o gael ein bendithio â'i gwmni am dros ddeugain mlynedd a chael ymhyfrydu eleni ar iddo gyrraedd hanner can mlynedd fel blaenor yn Henaduriaeth Arfon fel un a etholwyd yn

Eglwys Cwmyglo yn 1962. Yng ngeiriau ei berthynas, y Tad Deiniol fel un a wasanaethodd yn ei arwyl roedd Maurice Jones yn "berson o addfwynder a hynawsedd Cristnogol neilltuol" a mawr yw'r bwlch o'i golli. Cydymdeimlwn yn ddwys â Verna, Dilys a Ruth yn eu profedigaeth o golli priod a thad arbennig ac â'r teulu oll y bu'n rhan ohonynt cyhyd.

CASGLIADY

GENHADAETH Anfonwyd cyfraniad eleni eto yn ôl ein harfer i Gyfeisteddfod Chwiorydd Arfon tuag at waith Sasiwn Chwiorydd Cymdeithasfa'r Gogledd a gynhelir ar Fai 2il yn Llanidloes. Trefnir bws i'r Sasiwn ar y cyd â Chwiorydd Henaduriaeth Môn.

Y GYMDEITHAS Bydd cyfarfod cyntaf Cymdeithas y Capel am eleni nos Iau, Mai 10fed pryd y disgwylir Manon Ellis Williams i adrodd am ei gwaith yn Ne'r Affrig. Croeso cynnes i bawb ymuno â ni yng nghyfarfodydd tymor yr haf a'r hydref.

OEDFAON MAI

6	am 5.30	Parch Reuben Roberts Bontnewydd
13	am 5.30	Mr Oswyn Evans, Penmaenmawr
20	am 5.30	Mr Merfyn Jones, Caernarfon
27	am 2.00	Parch Trefor Lewis, Hen Golwyn

(Sul y Pentecost)

DIOLCH Dymuna Verna, Dilys a Ruth a'r teulu ddiolcham bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ar eu profedigeth lem o golli Maurice - gwr a thad annwyl. Diolchwn yn gynnes am bob gofal gan Caredig ac am gymorth staff a meddygfa Llanberis. Gwerthfawrogwn wasanaeth teilwng y Parch John Pritchard a'r Tad Deiniol yn yr

angladd a threfniadau trylwyr yr ymgymerydd E.W.Pritchard, Llanberis.

PLYGU'R ECO Bydd yn dro unwaith eto i drigolion y pentref ddod ynghyd i blygu rhifyn Mehefin o Eco'r Wyddfa. Cofiwch am y dyddiad sef Mai 31ain a dewch yn llu i'r Caban.

Cyngor Cymuned. Y prif eitemau perthnasol i Gaeathro o'r cyfarfod ar 3 Ebrill oedd:

- Dim cynnydd codi camfa newydd rhwng Llety ac Ysbytty
- Baneri wedi'u prynu ar gyfer adeg Eisteddfod yr Urdd yng Nglynllifon
- Dim cynnydd derbyn dwy giât moch newydd ar gyfer ffin y cae pêl-droed
- Cefnogaeth i geisiadau cynllunio yn Nhyddyn Bach a Bryn Eglwys
- Rhoddion ariannol: Clwb Pêl-droed Y Bontnewydd (£200), Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro (£200), Ysgol Feithrin a Chylch Ti a Fi'r Bontnewydd (£150).
- Prynwr newydd yn gwella golwg safle hen Ysbyty Pencefn
- Cytundeb talu am drwsio ffens y cae chwarae.

Newyddion y Capel. Cynhelir y gwasanaethau canlynol yn ystod mis Mai:

- 6: 11:00 Ysgol Sul, 2:00 Oedfa gyda'r Gweinidog, gyda Chyfarfod Blynyddol yr Eglwys i'w dilyn.
- 13: 11:00 Ysgol Sul.
- 20: 11:00 Ysgol Sul, 2:00 Parch Elwyn Richards
- 27: 11:00 Ysgol Sul.

Tynfa Fisol. Enillwyr Tynfa Fisol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro ar gyfer mis Ebrill oedd:

1. £40 (6) Viv Morgan, Tyddyn Uchaf.
2. £25 (77) Mair Roberts, Sŵn y Gwynt.
3. £15 (44) Steve a Ceri, 9 Bryn y Gof.
4. £5 (51) D.J. Roberts, 5 Brynteg.

Diolch i gefnogaeth yr hap-chwaraewyr roedd y Pwyllgor unwaith eto yn medru fforddio trefnu Helfa Wyau Pasg ar gyfer holl blant oed ysgol gynradd ac yn iau yn yr ardal - dros 40 ohonynt. Diolch hefyd i deuluoedd Plas Glangwna am ganiatâd i guddio'r wyau ger y Plas - ac am ddarparu lluniaeth ysgafn i bawb oedd yna.

Digwyddiad yr Haf? Mae aelodau'r Pwyllgor Cae Chwarae - sydd fel gwaith ychwanegol wedi cynnal y mwyafrif llethol o ddigwyddiadau'r haf yng Nghaeathro, yn chwilota am syniad newydd. Yn arbennig maen nhw am glywed barn pobl ifanc y pentref. Gofynnir am syniadau ar bapur trwy ddrws 'Hafan', (rhwng y Fynwent a'r Dafarn) cyn 17 Mai. Pe bai un syniad yn cael ei ddewis bydd gwobr i'r creawdwr!

Eiddo ym Mhafiliwn y Cae Pêl-droed. Ar hyn o bryd mae eiddo di-awdurdodedig yn y Pafiliwn ar y Cae Pêl-droed. Pe bai rhywun am hawlio ei eiddo o'r adeilad bydd rhaid iddynt gysylltu'n ysgrifenedig â Chadeirydd y Pwyllgor Cae Chwarae yn 'Hafan' cyn 17 Mai. Wedyn bydd pob eitem sydd heb eu hawlio yn cael eu gwaredu.

GERAIN'T OWEN
CARPEDI

CARPEDI • VINYLS • TELLS
CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
A RHAI MEWN STOCK

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfaï Mill Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475

POSH PAWS

TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol

PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10
DYDD SUL 8YB-4YP
Gwasanaeth Casglu a Danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07565791010
ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

YSGOL YRRU
ELIDIR
Driving School

Jacqueline Williams
Hyfforddwraig wedi ei chymeradwyo gan yr ASG

07922121226
NEU
(01286) 882269

GWERS GYNTAF
2 AWR AM BRIS 1

MERCHED Y WAWR

MERCHED Y WAWR. Nos Fawrth, 10 Ebrill, croesawyd nifer dda o aelodau gan y Llywydd, Bethanne, a chychwynwyd gyda Chân y Mudiad. Braf oedd gweld Avril yn bresennol wedi triniaeth i'w llygaid. Cydymdeimlwyd â Megan Roberts wedi ei phroffedigaeth o golli ei brawd yng nghyfraith, sef gŵr Eira ei chwaer. Mae ffurflen archebu nwyddau 2012 ar gael - cardiau Nadolig, dyddiaduron a chardiau cyfarch - dim neges tu fewn. Siaradwraig y noson oedd Helen Holland, o Fethesda yn wreiddiol, yn athrawes yn Ysgol Dyffryn Ogwen ac yn briod â Phil Holland sy'n athro yn Ysgol Brynrefail. Mae'n byw ym Modorgan ac yno mae wedi sefydlu busnes hufen iâ 'Môn ar Lwy'. Bu'n olrhain cefndir cychwyn y busnes a hynny wedi cyfnod o broffedigaethau yn y teulu. Roedd angen ffocysu ar rywbeth hollol wahanol i ddysgu. Roedd elfen busnes yn ddwfn ynddi ers yn ifanc iawn, felly yn ôl i'r coleg â hi a gorfod ail afael mewn cemeg, ffiseg a phob math o bynciau dyrys eraill. Roedd ei ffordd ddihafal a doniol o adrodd am ei throeon trwstan wrth drin peiriannau a goresgyn pob math o dreialon yn esiampl wych i bawb ohonom fod 'Dyfal Donc a Dyrr y Garreg' yn sicr yn wir yn hanes Helen. Wedi ennill drwy Brydain daeth trobwynt i'w menter. Bellach mae'n mynychu ffeiriau bwyd yn gyson ac wedi ennill nifer o wobrau ers sefydlu'r busnes yn 2008. 'Mae hufen iâ Môn ar Lwy yn cael ei baratoi gyda gofal cariadus ychydig ar y tro gan ddefnyddio cynnyrch lleol o'r ansawdd grau a daw

mewn amrywiaeth o flasau amheuthun a gwreiddiol - gan gynnwys blasau tymhorol sy'n boblogaidd bob amser.' Cafwyd cyfle i flasau amrywiaeth o hufen iâ - un i llnau'r geg cyn prif gwrs, yna hufen iâ llus ac un traddodiadol i' ni'r Cymry - hufen iâ hefo bara brith. Amheuthun iawn! Creir blasau unigryw yn arbennig ar gyfer gwestai, priodasau ac ar gyfer bwydlen bersonol. Mae Môn ar Lwy yn gynnyrch gwobredig wedi'i wneud â llaw yn ôl gofynion y cleient ac am bris fforddiadwy. Wrth 'Droi'r Llywy - deffra'r hud a chewch brofi'r angerdd am berffeithrwydd ym mhob llwyaid.' Diolchwyd i Helen am noson hynod o ddifyr a blasu gwych, a phob lwc i Môn ar Lwy i'r dyfodol. Diolch hefyd i Carys a Mary am wneud y baned. Tro Menna, Margaret, Christian ac Avril fydd paratoi'r baned mis nesaf. Enillydd y raffl oedd Avril. Cynhelir y Cyfarfod Blynyddol nos Fawrth, 8 Mai. Wedi'r cyfarfod cynhelir Ffair Ffeirio a Phaned a Chlonc Datgelwyd mai i Winllan Pant Du, Penygroes fydd y Wibdaith eleni, ar 12 Mehefin, gyda phryd o fwyd dau gwrs i ddilyn yng ngwesty Meifod, Bontnewydd. Mae manylion y fwydlen ar gael gan Carys Wyn, Pris £18. PLAID CYMRU. Clwb Cant. Enillwyr Mis Ebrill oedd: 1. Frank Green, Pontrug; 2. Iwan Roberts, Llanrug. SEFYDLIAD COFFA. Clwb Cant. Enillwyr Mis Mawrth oedd: 1. Mrs M. Jones, Afon Rhos; 2. Mrs E. Roberts, Bryn Moelyn; 3.G. Hughes, Afon Rhos.

LLWYDDIANT EISTEDDFOD



Llongyfarchiadau i'r pump Chwythbrennau. (O'r chwith): Llinos Roberts, ifanc yma ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Cylch a Sir yr Urdd. Cawsant lwyddiant yn canu Unawdau, Deuawdau, Unawd alla o Sioe Gerdd ac Unawd Lleucu, Rhodri a Gwern Brookes, Rhidian Price. Pob lwc i Rhodri yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.



Ein cofion at Gavin Jones a Michael Jones, gynt o Bro Rhuddallt, ond bellach yn Awstralia! Mae'r ddau yn mwynhau bywyd yn y wlad newydd, ac mae pethau'n go wahanol. Chafodd yr un o'r ddau eu hel o'r môr yn Ninas Dinlle am fod siarc yn y dwr!

GLANHAWR SIMNE
TRWSIO CORN • GOSOD CAWL
 Cysylltwch â Tom Jones
(01286) 881305
 WEDI PRYNU BUSNES Y DIWEDDAR GWYNFRYN LLOYD

ARVONIA EXCELLENCE IN TRAVEL **cpt**

- Gwyliau Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Triapiau Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer llogi preifat.
- Adran teithiau grwp - yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatra digwyddiadau

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA
 Ffôn: 01286-675175 • Ffacs: 01286-671126
 E-bost: info@arvoniaco.uk • Gwefan: www.arvoniaco.uk

Am gymorth:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli

Mantell Gwynedd
 Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
 Supporting voluntary and community groups

cysylltwch â Mantell Gwynedd
 - yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
 ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575

Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfymedig drwy Warant 3420271

CAPEL Y RHOS. Ar fore Sul, Ebrill 1af, bedyddiwyd Iago, ail fab bach Deiniol a Nia Griffith (Hawddamor gynt) ond sydd bellach yn byw yn Llanelli. Gwasanaethwyd gan y gweinidog, y Parch Marcus Wyn Robinson a'r organydd oedd Siân Wheway. Roedd Iago yn dathlu ei ben-blwydd cyntaf ar yr un diwrnod ac ymunodd lanto, ei frawd mawr, â'r gynulleidfa i ganu pen-blwydd hapus iddo. Dymunwn bob bendith ar y teulu bach.

OEDFAON MAI

6: Y Gweinidog, Gweinyddir y Cymun

13: Y Parch Robert Capon

20: Y Gweinidogion

27: Sul y Pentecost. Y Parch Trefor Lewis.

Plant Ysgol Sul Capel y Rhos yn mwynhau Helfa Wyau Pasg, wedi ei threfnu gan blant hynaf yr Ysgol Sul.



Helfa
Wyau
Pasg



YSGOL GYNRADD. Dosbarth Derbyn. Dymuna'r plant a'r staff ddiolch i Mrs Buddug Jones a'i chi tywys, Freya, ac i PC Edwards am iddynt ymweld â'r dosbarth yn ddiweddar. Cafwyd ymweliad i'r Filfeddygfa yn Cibyn hefyd - amser difyr iawn. Diolch i bawb.

D Y W E D D I A D . Llongyfarchiadau mawr i Carwyn Machno Lloyd a Bethan Morgan ar eu dyweddiad yn ddiweddar. Pob dymuniad da i chi eich dau.

BABI NEWYDD. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Donna ac Owain, Pant Tirion, Ffordd Glanmoelyn ar enedigaeth Anna Fflur, wyres gyntaf i Brian a Sharon, Bro Rhyddallt i gorywes i Tom Alun ac Eileen. Pob bendith i chi fel teulu.

P E N - B L W Y D D ARBENNIG. Nid yn unig mae Brian wedi dod yn daid am y tro cyntaf, mae yn dathlu ei ben-blwydd yn 50 hefyd! Hwyl fawr i chi.

PWYLLGOR GARNIFAL. Gobeithir cynnal y Carnifal

eleni ar fuarth yr ysgol ar 16 Mehefin. Mae'r gwaith o drefnu yn andros o galed i'r Pwyllgor gan fod y nifer o wirfoddolwyr yn fychan. Erfynnir am gymorth mwy o bobl i drefnu ac/neu i roi help llaw ar y diwrnod. Os gwelwch yn dda a wnewch chi ffonio Jenny Thomas ar 01286 675014 os y gallwch helpu. Diolch yn fawr.

LLONGYFARCHIADAU mawr i'r Band am ddod yn drydydd allan o 9 yn Adran 2 Pencampwriaeth Bandiau Pres Cymru yn Abertawe, yn ddiweddar. Mae'n ganlyniad canmoladwy iawn o ystyried bod y rhan fwyaf o'r aelodau yn blant a phobl ifanc. Diolch am eu brwdfrydedd a'u hymroddiad.

CLWB CANT. Enillydd mis Mawrth oedd John Haydn Hughes, Caernarfon (Rhif 53). I ymuno â'r Clwb cysyllter â Mike Thomas ar 01286 675084.

ARDAL LLANRUG Gwersi Piano a Theori i blant ifanc. Cysylltwch ar 07788438881 ar ôl 6 yr hwyr



CERIS JONES

Teglan,
Stâd Talybont

LLANRUG

677362

neu symudol

07979620996

- Trwsio ceir a faniau
- Gwaith MOT
- Mecanic profiadol iawn
- Prisiau cystadleuol



ORIEL

CWM

Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs:

(01286) 872882

Gwasanaeth Fframio

Lluniau o bob math

Ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau

gwireiddiol gan Artistiaid

Lleol

Richard S. Humphreys

CODIARIAN AT ELUSEN. Mae Haf yn cynllunio ei chardiau ei hun ac yn eu gwerthu at wahanol elusen bob blwyddyn. Mae wedi codi dros £43,000 dros y blynyddoedd ac mae'n dymuno diolch i bawb o Fro'r Eco am eu cefnogaeth.



Haf Thomas yn cyflwyno sic am £500 i Lynn Parry o Hosbis yn y Cartref, Ynys Môn a Gwynedd.

CYLCH MEITHRIN LLANRUG

Canmoliaeth gan Estyn ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

Mae Cylch Meithrin Llanrug wedi derbyn canmoliaeth gan Estyn yn dilyn eu harolygiad cyntaf o'r Cylch. Yn ystod arolygiad diweddar nodwyd bod y Cylch, sy'n rhoi cyfle i bob plentyn dan oed ysgol yn Llanrug fanteisio ar brofiadau meithrin trwy gyfrwng y Gymraeg, gyda llawer iawn o gryfderau ac yn meddu ar arferion rhagorol. Rhoddwyd dyfarniad rhagorol i brofiadau dysgu sydd ar gael i'r plant; y gofal, cymorth ac arweiniad a roddir; y gweithio mewn partneriaeth a wneir a'r rheolaeth o adnoddau. Nodwyd bod perfformiad y cylch yn dda oherwydd y berthynas gynhaliol, addfwyn sydd yn bodoli rhwng y plant a'r ymarferwyr; y cynlluniau manwl ac amrediad o adnoddau rhagorol ymhob ardal dysgu; ansawdd rhagorol yr addysgu yn y grwpiau ffocws; amgylchedd dysgu cynhwysol ac ysgogol; y trefniadau bwriadus sydd yn gweu'n naturiol i fywyd a gwaith y Cylch i gefnogi plant i dderbyn amrywiaeth a herio stereoteipio. Dywedodd llefarydd ar ran Pwyllgor Rheoli'r Cylch:

'Rydym yn hynod o bles gyda arolygiad Estyn ac yn ymfalchio yn y ffaith ein bod wedi cael dyfarniad rhagorol neu dda ym mhob adran o'r arolygiad. Rydym hefyd wrth ein bodd ein bod wedi derbyn adroddiad gan Arolygiaeth Gofal a

Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn canmol ein gwasanaeth. Diolch i'r staff a'r gwirfoddolwyr am eu gwaith caled a'u hymroddiad i sicrhau bod plant Llanrug a'r cyffiniau yn derbyn gwasanaeth o'r radd flaenaf.

Bydd plant y Cylch yn gwneud taith gerdded noddedig dydd Llun, 7 Mai. Os ydych am noddi'r plant cofwch gysylltu gyda'r cylch drwy alw yno, ffonio 01286 674020 neu gysylltu trwy ein tudalen facebook - Cylch Meithrin Llanrug.

Rhif Ffon: 01286 674020
Arweinyddes: Mrs Nichola Griffiths Jones Caernarfon LL55 4AL

ANGEN HEN LUNIAU. Dymuna Pwyllgor y Cylch Meithrin apelio am hen luniau o'r cylch o ddyddiad ei sefydlu yn 1972 hyd heddiw. Os oes gennych lun i'w fenthyg ar gyfer dathlu'r 40ain mlwyddiant cysylltwch a Mrs Nichola Griffiths Jones ar 01286 674020.

PROFEDIGAETH. Cydymdeimlwn yn ddiffuant gyda Gwen Jones, Stad Gwelfynydd, a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth o golli mam, sef Mrs Dylis Baylis, Llanberis. Bydd colled fawr i chi i gyd, yn enwedig wedi'r galwadau a'r gofal ar hyd y blynyddoedd.

PROFEDIGAETH. Cydymdeimlwn yn arw iawn â Lynne, John a'r teulu, 10 Glanmoelyn, yn eu profedigaeth lem ac annisgwyl yn colli Colin, brawd Lynne. Roedd Colin yn fab i'r diweddar Eric a Heulwen Williams, 5 Glanmoelyn ac yn wr i Olwen a thad annwyl i Arwel a Collette. Bydd colled fawr i chi fel teulu.

Caffi Caban

ar Agor

9 y bore tan 4 y pŵn - 7 diwrnod yr wythnos

Cwmni cydweithredol di-elw yw Caban Cyf. wedi ei sefydlu i hwyluso datblygiad economaidd cefn gwlad.

Nod Caban Cyf. yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refeniw (Caffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffu a Llungopio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (Unedau Busnes Caban) er mwyn creu cyfleoedd gwaith.

Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail
www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

Caban

H.E. HUGHES

A'I FEIBION


Bwthyn Gadlys

LLANBERIS

Ffôn: 870444



- ★ Gwerthwr Glo
 - ★ Olew Gwres Canolog
- i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!



GWYNANT PIERCE

Cynrychion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTION • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

RHOSTIO MOCHYN
AR GYFER
POB ACHLYSUR

- * Cig o ffermydd lleol
- * Partion rhwng 40 a 400!
- * Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
- * Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON
LLANRUG

Y DYN GIG = 675190 / 673188
Ffôn symudol: 07798 718188
Gwefan: www.ydyncig.co.uk

Un funud fach ...

AMWLEDD!

Doedd yna fawr o ddewis ar y fwydlen. Dim ond pysgodyn wedi ei rostio, ac efallai ychydig o fêl. Ond doedd neb yn cwyno am hynny. Ac er mor blaen y bwyd, dyma un o'r gwleddoedd mwyaf a gafwyd erioed. Ond nid y bwyd oedd yn ei gwneud mor arbennig. Nid y cogyddion chwaith. Y gwstai oedd yn rhoi arbenigrwydd i'r wledd hon. Gallwn ninnau ddweud peth tebyg am ambell i barti neu wledd, mae'n siŵr: y gwsteion, y bobl sy'n dod iddynt sy'n eu gwneud yn arbennig a chofiadwy.

Ond does yr un wledd all gymharu â'r un y darllenwn amdani tua diwedd pennod olaf Efengyl Luc. Iesu Grist yw'r gwstai sydd wedi dod at ei ddisgyblion ar ôl ei atgyfodiad. Mae'r disgyblion yn dychryn o'i weld, ac yn tybio mai gweld ysbryd y maent. Dydyn nhw ddim yn deall beth sy'n digwydd, ac maen nhw'n llawn amheuon. Ac felly, yn syml iawn, mae Iesu'n tosturio wrthyn nhw ac yn mynd ati i brofi iddynt nad ysbryd sy'n sefyll o'u blaen. Mae'n profi - ie, profi iddyn nhw'n ddiarnheuol - mai fo ei hun sydd yno, wedi dod yn ôl yn fyw.

Mae'n gwneud hynny trwy ddangos ei ddwylo a'i draed i ddechrau. 'Nid oes gan ysbryd gnawd ac esgyrn, fel y gwelwch fod gennyf fi,' meddai. Ac yna, mae'n gofyn am rywbeth i'w fwyta, a'r disgyblion yn rhoi darn o bysgodyn iddo. 'Cymerodd ef, a bwyta yn eu gŵydd.' Ac er symled yr arlwy, dyna wledd ryfeddol oedd hon. Oherwydd wrth fwyta, fel wrth ddangos ei ddwylo a'i draed, mae Iesu'n profi i'w ddisgyblion ei fod yn fyw, er iddo farw a chael ei gladdu mewn bedd rai dyddiau'n gynharach. Y prawf hwn a newidiodd y disgyblion o fod yn amheus ac ofnus i fod yn llawn ffydd a hyder. 'Yr ydych chi,' meddai Iesu wrthynt, 'yn dystion o'r pethau hyn.'

Mae'r hanesyn hwn mor brydferth o syml a chllir. Ac mae'r hyn a ddywedir mor syfrdanol. Clywsom yn ddiweddar fwy nag un stori am bobl yn dod o 'farw yn fyw'. Mae'r peldroediwr Fabrice Muamba wedi gadael yr ysbyty erbyn hyn, wedi iddo gael ei daro'n wael yn ystod gêm, a bod yn 'farw' am fwy nag awr. Ac o'r Ariannin daeth sôn am fabi bach newydd anedig yn 'marw' ac yn cael ei gadael am ddeuddeg awr cyn i'w mam sylweddoli ei bod yn dal yn fyw. Hyd y gwn, mae'r babi bach yn dal yn ddifrifol wael. Ond roedd yr hyn a ddigwyddodd i Iesu yn gwbl wahanol i'r straeon hynny. Oherwydd roedd hwn wedi marw, a'r farwolaeth wedi bod yn arteithiol o boenus; roedd wedi ei gladdu; roedd wedi bod mewn bedd am ran o dri diwrnod. A daeth o'r bedd. Daeth yn fyw. Ac mae'r wledd hon o bysgodyn wedi ei rostio yn profi hynny. Am wledd!

JOHN PRITCHARD

Er Cof am Maurice Jones

Meillionen, Pen'llyn, Cwm y Glo

Galwyd o'n mysg ŵr gwylaidd, yn ei ddydd
un mor ddoeth a gwaraidd,
un â greddf pwyll yn ei graidd,
yn eigion boneddigaidd.

Byd addysg, byd addysgwr - ei ddileit
fu'r ddau lyn fel 'sgotwr,
hwn fu i'w deulu yn dŵr,
rhodiodd yn haul Gwaredwr.

* * *

Er Cof am Dilys Bayliss

Plas Pen Gwaith Llanberis

I ni ei anrheg, cof canrif - y newid
yn noeau'r mwyafrif,
yn y llun, yn glir roedd llif
arwyr o'r côr aneirif.

Ei henaid oedd ffein - ddaionus - medrai
odl a mydr yn greffitus,
yn ei gweddi gyhoeddus
annel hon yr Uchel lys.

A hi yn awr yn yr Oriel - yn rhan
o ras y llu anwel
yn gweld yn glir 'r hyn fu gél
o ochr Yr Aruchel.

* * *

O'u hadnabod a'u tebyg
O diolch am fy ngolchi yn afon
a lifai'n Eryri,
aelwyd ardal chwareli,
cymaint braint - a'r fro mewn bri.
Norman Closs

YSWIRIANT FUW

Hoffech chi hybu:



Bwyd lleol

Busnesau cefn gwlad

Economi wledig

Trwy gefnogi Yswiriant FFW?

Yswiriant car, ty neu unrhyw fusnes

Dafydd P Jones 01492 642683 Dwyrain Sir Gaernarfon

Buddsoddi yn eich cymuned

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei awdurdodi a'i reoli gan Awdurdod y Gwasanaethau Ariannol, yng nghyd-deddfun cyfyngu yswiriant, o dan Rhif Cofrestru 308935

Blodau Racca


(ALWYN A SARAH JONES)

Ffôn: 870605

- Basgedi Planhigion
- Planhigion Gardd
- Basgedi Crog
- Hefyd, Compost ar werth


RHODD O'R GALON
YW BLODAU

Mae'n rhaid i mi siarad
hefo rhywun



Y SAMARIAID
(01248) 674985

DATHLU'R DEUGAIN!



1972 - 2012

Bydd Amgueddfa Lechi Cymru Llanberis yn dathlu'i phenblwydd yn 40oed ar Fai 25ain a 26ain eleni.

Caewyd y gweithdai Fictoraidd gwreiddiol - sy'n gartref erbyn hyn i Amgueddfa Lechi Cymru - yn Awst 1969 ynghyd â chwarel lechi Dinorwig ond ail-agorwyd y safle ym Mai 1972 fel Amgueddfa Chwareli Gogledd Cymru. Eglurodd Dr. Dafydd Roberts, Ceidwad yr Amgueddfa, ymhellach:

"Ers y diwrnod hwnnw'n 1972, mae'r enw wedi newid i Amgueddfa Lechi Cymru ac mae ymhell dros dwy filiwn a hanner o bobl wedi camu trwy'r porth a phrofi hanes y diwydiant llechi yn yr ardal hon. Rydyn ni am i'n penblwydd yn ddeugain adlewyrchu a dathlu yr holl weithgaredd mae'r lle arbennig hwn wedi'i weld dros y degawdau diwethaf, o'r dyddiau agoriadol yn y saithdegau i'r ail-ddatblygu mawr fu yn niwedd y nawdegau i Mynediad am Ddim yn y mileniwm newydd."

Bydd cyfres o weithgareddau ymlaen i dathlu'r achlysur gan gynnwys arddangosfa newydd yn olrhain hanes



y safle dros y 40 mlynedd diwethaf fydd yn agor ar Fai 25ain, gweithgareddau i'r cyhoedd a darn o deisen i bawb ar Fai 26ain a darlith penblwydd gan Dr Dafydd Roberts ar 27ain Hydref 2012. Bydd thema'r penblwydd i'w gweld ar draws y safle drwy'r flwyddyn.

Mae'r amgueddfa wedi body n ffodus iawn i fod wedi derbyn swmp o wybodaeth gan bobol lleol, yn cynnwys ffotograffau - ac yn dal i gasglu gwybodaeth am yr agoriad ei hun yn 1972 a'r dyddiau cynnar yn y 70au fel yr esboniodd y Curadur, Cadi Iolen

"Rydyn ni'n gwybod fod cannoedd o filoedd o bobl wedi ymweld â'r amgueddfa yn ystod y blynyddoedd cynnar. Os oes gan unrhyw un luniau neu gofrodion neu atgofion o'r dyddiau cynnar hynny, mi fuasen ni wrth ein boddau'n clywed ganddynt."

Am fwy o wybodaeth am y dathliadau penblwydd edrychwch ar y safle we ar www.amgueddfacymru.ac.uk neu cysylltwch yn uniongyrchol â'r amgueddfa ar 02920 573700 neu drwy ebostio llechi@amgueddfacymru.ac.uk

Cydnabyddir cefnogaeth

Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government



BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD

www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

**BARRYS
GLASS**

FFENESTRI • DRYSAU
Conservatori UPVC

Trwsio Unedau
"DOUBLE GLAZING"

Trwsio a Gosod Gwydr

(01286) 872772

Symudol- 07840 794269

ECO'r Wyddfa

O'r Cynghorau Cyngor Llanddeiniolen

Crynodeb o gofnodion y 27ain o Fawrth.

Llyn Padarn. Ateb Asiantaeth yr Amgylchedd y cynhelir cyfarfod o Fforwm Llyn Padarn ar yr 2il o Ebrill am 16.00 ym Mynydd Gwefru, Gorsaf Bŵer, Dinorwig. Mae Huw P. Hughes yn aelod eisoes a bydd Len Jones a Hefin Williams hefyd yn bresennol i gynrychioli'r Cyngor yma.

Baw Cŵn. Penisa'rwaun. Ateb Gwynedd bod sawl arwydd a bin ychwanegol wedi eu gosod yno o ganlyniad i gwynion y llynedd. Daw'r Swyddog Gorfodaeth i gysylltiad eto i weld a oes angen mwy o arwyddion neu finiau. Awgrymodd Steffan Jones i'r Swyddog Trefi Taclus ymweld â'r ysgol gan mai'r disgyblion gychwynnodd yr ymgyrch.

Etholaethau Seneddol yng Nghymru. Ateb Mr Benjamin

Whitstone ar ran Y Comisiwn Ffiniau yn cydnabod derbyn sylwadau'r Cyngor a sicrhau y bydd y Comisiwn yn ystyried y sylwadau yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol.

Bugeiliaid Teithiol. Ateb NFU Cymru yn cydymdeimlo â'r sefyllfa ond yn amlygu na wyddant at bwy i gyfeirio'r gŵyn gan nad oes dim a wnelo'r Cyngor Sir â'r mater.

Plannu Cennin Pedr. Ateb Mr Meirion Jones, Adran Arfon o Gyngor Gwynedd nad oes ganddo wrthwynebiad ond ei fod wedi anfon y cais i'r Rheolwr Gofal Stryd ym Mhencadlys Gwynedd am ei sylw yntau.

Aelodau ar gyfer yr Etholiad. Yn anffodus cafwyd gwybodaeth bod Elspeth Mitcheson, Merfyn Morris a Pat Jones am ymddeol o fod yn aelodau. Penderfynwyd anfon

llythyr o ddiolch iddynt am eu gwasanaeth gwerthfawr.

Eisteddfod yr Urdd. Cyfeiriodd Len Jones at lwyddiant Osian Trefor Hughes a Llesiau Llanbabs yn Eisteddfod Sir yr Urdd a Phyllis Elis at barti unsain ysgol Penisa'rwaun - penderfynwyd eu llongyfarch a dymuno'n dda iddynt yn y Genedlaethol. Dywedodd Geraint Hughes bod angen llawer o Stiwardiaid (400 o sifftiau) ar gyfer yr Ŵyl - y cysylltiad yw www.urdd.org.

Rhiwas. Dywedodd Hefin Williams bod amryw o gwteri wedi blocio a bod angen llinellau melyn ar hyd y ffordd i fyny trwy'r pentref - llythyr i Wynedd.

Mapiau/Hanes. Ar gais Len Jones trafodwyd cynhyrchu mapiau eto yn hytrach nag aros tan cael safle gwefan.

Cyfarfod â thrigolion 50, 51 a 52 Nant y Glyn sydd wedi anfon cais i osod ffens ar ben wal y cae chwarae yng nghefn eu heiddo.

Derbyn pris P. McGuinness am dorri gwair yn y caeau chwarae yn ystod 2012.

Nad oedd gwrthwynebiad i'r cais cynllunio canlynol:

1. Adeiladu sied amaethyddol - Llidiart y Rhos, Llanrug

Gwrthwynebu'r Cais Cynllunio canlynol ar sail fod y fynedfa i'r eiddo yn beryglus a'i fod tu allan i'r ffiniau datblygu.

1. Adeiladu tŷ un llawr a modurdy dwbl - (Cynllun diwygiedig) - Tir ger Tyddyn Rhyddallt, Llanrug.

Cymeradwyo Cyllideb y Cyngor am 2012-13.

Cadarnhau derbyn pris Wyn Lewis, Caernarfon i dorri gwair yn y fynwent yn ystod 2012

Ysgrifennu at Feddygfa Ffordd Glanmoelyn ynglŷn â chyflwr y wal flaen sydd wedi syrthio ar y palmant.

Awgrymodd Geraint Hughes ofyn i Gareth Roberts faint o waith fuasai paratoi map i ddilyn y gwreiddiol a phris am ei gynhyrchu. Hefyd pris am oddeutu 500 copi o'r gwreiddiol. Cytunwyd ar hynny.

Cynllunio.

Derbyniwyd un cais :- Estyniad yn y cefn - 5 Tai California, Clwt y Bont.

Llwybrau. Dywedodd Huw P. Hughes bod y llwybr o Wern i Bodendreg, Bethel, yn wlyb ac yn amhosibl ei gerdded. Cyfeiriodd Phylip Jones at y llwybr o Frynrefail i ffordd Llanberis (ger tro'r twnel) - y gât ar glo ac mae ystol bob ochr fel camfa drosodd, buasai'n amhosib mynd trwodd gyda choits - llythyr i Wynedd.

Y Cynghorydd Mrs Pat Larsen. Atgoffwyd y Cyngor bod Mrs Larsen yn ymddeol o fod yn Gynghorydd Sir a dyma ei chyfarfod **Cymuned olaf fel cynrychiolydd Gwynedd.**

Dyddiad y cyfarfod nesaf - Cyfarfod Blynnyddol 15ed o Fai

Cysylltu gyda Cyngor Gwynedd ynglŷn â lamp ar Lôn Groes sydd ddim yn gweithio Ysgrifennu at Elin Catrin Owen i'w llongyfarch am gael ei dewis i gario'r fflam Olympaidd.

Hysbysu Adran Priffyrdd am gyflwr y ffordd ger Tyddyn. Roedd lori 'Pickfords' wedi mynd i drafferthion yno ac wedi difrodi'r safle wrth geisio dod yn rhydd.

Gofyn i Gyngor Gwynedd ystyried rhoi llinellau dwbl melyn o flaen tai Pen y Cae ger Ysgol Brynrefail.

Gofyn i Gyngor Gwynedd ystyried mabwysiadu'r llwybr/agoriad o'r hen Garej Hafod i dai Glanffynnon ac Afon Rhos gan ei fod wedi ei defnyddio gan y cyhoedd ers blynnyddoedd.

Gofyn i Gyngor Gwynedd osod biniau baw cŵn ger yr Ysgol Gynradd yng Nghwm y Glo a ger meddygfa Ffordd yr Orsaf a Bro Rhyddallt, yn Llanrug. Hefyd i archebu mwy o arwyddion 'Dim Baeddu'.

ECO'r Wyddfa

O'r Cynghorau Cyngor Cymuned Llanrug

Mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 20fed o Fawrth, fe benderfynwyd:

Cysylltu gyda Adran Gyfreithiol Cyngor Gwynedd ynglŷn â mabwysiadu'r llwybr o Ffordd yr Orsaf i gae chwarae Nant y Glyn.

Cysylltu â Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd ynglŷn â chyflwr y llwybr o'r Eglwys i Pant Tirion.

Tynnu sylw Cyngor Gwynedd at y broblem sbwriel ar y ffyrdd yn dilyn ymweliadau'r loriau ail gylchu ac ysgrifennu at Ysgol Brynrefail i atgoffa'r disgyblion i ddefnyddio'r biniau, yn enwedig amser cinio.

Adeiladu bocsi i ddal poteli

ar gyfer dŵr i'r blodau yn y fynwent.

Derbyn cynnig gan aelodau o'r Cyngor i geisio clirio'r mwsog sy'n tyfu ar y llwybrau yn y fynwent.

Cadw golwg ar unrhyw ddatblygiadau i wella'r sefyllfa parcio yng Nghwmyglo yn dilyn y cyfarfod cyhoeddus diweddar. Yn dilyn y cyfarfod, roedd swyddogion parcio Cyngor Gwynedd wedi bod yno ac wedi rhoi tocynnau parcio i ambell i yrrwr.

Penderfynwyd archebu baneri gan yr Urdd er mwyn eu gosod ar y ffyrdd drwy Llanrug, Pontrug a Chwmyglo ar gyfer yr Eisteddfod eleni.



Problem gyda'ch cyfrifiadur?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch â Gomer Roberts
Ffôn : 01286 870462
Symudol : 07962 712368

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!



FFRAMIA
Parc Padarn, Llanberis
(01286) 870922
www.fframia.com

Gwasanaeth Fframio Lluniau

Dewis eang o luniau yn yr Oriel ac ar y wefan
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy.



Ar ben arall i'r lein

Er fod llygredd Llyn Padarn yn achosi problemau gyda gwerth hawliau pysgota ar y llyn a'r Seiont, a drwy hyn rwyf hefyd yn cyfeirio at Afon Rhythallt, does dim os fod y clwb yn dal i fod yn un o'r sefydliadau pysgota mwyaf llwyddiannus yng Nghymru, gyda perchenogaeth hawliau pysgota, tir, adeiladau a hefyd y ddeorfa yn Crawia. Mae'r diolch am hyn i gyd i aelodau dros y blynyddoedd sydd wedi ymdrechu a rhoi o'u profiad a'u hamser i yrru pethau ymlaen, ond, yn fwy na dim y weledigaeth am y dyfodol oedd yr allwedd.

Drwy edrych dros fy ysgwydd rwy'n gwerthfawrogi'r arweiniad, y cymorth a'r cyngor a gefais gan lawer un, y cyntaf fel Cadeirydd y clwb yn 1979 oedd yr annwyl Tomi Lovell, a'r Trysorydd Owen Thomas, y ddau o Gaernarfon. a thrwy y ddau hyn yr oeddwn yn fuan iawn ar delerau da gyda Will Lloyd Hughes, Waunfawr; Dr Noel Roberts, Caernarfon; Dr R.G. Owen, Penygroes; W.O. Williams, Penygroes; Deiniol Williams ac Oscar Evans, Bethel. Yn dilyn fe ddaeth Merfyn Harris, Felinheli. Roedd y rhain i gyd yn eu tro yn gyfrifol am wahanol agweddau o'r llwyddiant, ond fel mae'r blynyddoedd yn llamu heibio maent i gyd wedi ein gadael.

Mae nifer fawr heddiw hefyd sydd yn gyfrifol am ein sefyllfa, ond yn ddiweddar mae un a fu'n gyfrifol am arwain y Gymdeithas drwy y newid mwyaf chwyldroadol yn ei hanes, sef pryniant mawr fel dyfroedd Stadau'r Faenol a Glynllifon, hefyd goruchwylio'r trosglwyddiad o fod yn Gymdeithas gyda ymddiriedolwyr i fod yn gwmni drwy warrant. Bu yn gadeirydd am oddeutu ugain mlynedd ac wedyn yn un o'r Cyfarwyddwyr a chadeirydd y Cyfarwyddwyr cyntaf. Maurice M. Jones, Penllyn, fo oedd yn unigolyn y cefais innau hefyd lawer o'i gwmni. Yn anffodus fe ymadawodd Maurice â glannau'r Rhythallt yn ddiweddar ar ôl cystudd blin. Diolch, Maurice, am eich cyfeillgarwch ac am fy nghadw mewn trefn ar nifer o achosion.

Yn anffodus, yn dilyn Maurice fe gollwyd aelod arall o'r Gymdeithas, sef Colin Williams o Ddeiniolen. 'Sgotwr dygn a chyfrifol, cerddor ardderchog a pleser oedd bod yn ei gwmni. Bydd colled fawr ar ôl y ddau a hoffwn ymestyn cydymdeimlad y Gymdeithas i'r teuluoedd.

Y mis diwethaf addewais adrodd ar gyfarfodydd a gynhaliwyd ar 30 Mawrth gyda cyfarwyddwr gwasanaethau carthffos Dŵr Cymru, Mr. Steve Wilson a'n aelod Cynulliad, Mr Alun Ffred Jones. Ar ran y Gymdeithas yr oedd Dr Robin Parry a minnau hefyd yn bresennol. Yn dilyn blynyddoedd o oedi, dadlau a gwrthod derbyn fod unrhyw beth o le gyda'r arllwysadau carthffos a safon ein dyfroedd, roedd yn dipyn o sioc i'r sustem, a dweud y gwir, i gael sgwrs â gwŷr o uchel swydd y cwmni dŵr a oedd mor barod i dderbyn fod pethau yn gorfod gwella, a bod y cwmni gyda'r bwriad o ddod â gwelliannau i rym yn go fuan.

Datgelwyd fod cryn waith yn cael ei wneud ar dynnu dŵr wyneb o'r system garthffos. Gallai hyn weld gostyngiad o 10-15% o ddŵr yn dod i'r sustem. Wrth gwrs, rhaid cofio fod tua 40% o'r garthffos sy'n cael ei ollwng i'r llyn heb ei drin. Felly bydd 25-30% yn dal i redeg yn amrwd - pwy sydd am nofio yn y llyn tybed?

'Roedd hefyd gwaith i'w gwblhau o fewn 2-3 blynedd ble buasai yr holl ddŵr wyneb yn cael ei dynnu o'r system a'r holl garthion wedyn yn cael eu trosglwyddo drwy bibell unai i waith carthffos Caernarfon neu Treborth. Buasai hyn yn golygu gwaith peirianeg enfawr o fewn pentref Llanberis a fuasai, heb os, yn amharu ar y pentref am tua dwy flynedd. Hefyd mi fuasai'r cwmni yn fodlon cysidro cydweithio gyda Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Cyngor Cefn Gwlad i gynnal cynllun stocio sylweddol i godi stoc y torgoch, brithyll, eog a sewin yn barod at yr amser y buasai'r gwaith ar ein sustem yn dwyn ffrwyth a glendid ein dyfroedd yn dychwelyd.

Wel dyna newydd da ar ôl ugain mlynedd o gnocio pennau yn erbyn clawdd caled a neb yn gwranddo. Felly, dyna ni, y gwaith wedi ei gyflawni o'r diwedd - wel meddyliwch eto!

Yn dilyn, ar 2il Ebrill 2012, roedd cyfarfod llawn o Fforwm Padarn, dan gadeiryddiaeth Mr. Alun Ffred Jones. Roedd aelodaeth o'r Fforwm yn cynnwys cynrychiolaeth o Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Dŵr Cymru, Cyngor Gwynedd, Cyngor Cymuned Llanddeiniolen, Cymdeithas Pysgotwyr ac aelodau o gyrff Chwaraeon Dŵr sy'n defnyddio'r llyn.

Cafwyd adroddiad gan Dŵr Cymru eu bod yn cysidro pump opsiwn i ymdrin â'r broblem, ond ni fydd penderfyniad ar pwy opsiwn fydd ym cael ei ffafrio hyd at yr hydref eleni. Wedyn bydd yn rhaid cynnal trafodaeth helaeth gyda Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Cyngor Cefn Gwlad i edrych a fydd yr opsiwn yma yn dderbyniol. Wedyn, bydd eisiau cario allan y dyluniad a cheisio'r caniatad statudol. Faint o amser fydd hyn yn gymryd tybed? Wedyn bydd eisiau cynllunio a cario allan y gwaith. Peidiwch â dal eich gwynt ond mae'n debygol na fydd dim yn dechrau am o leiaf ddwy flynedd arall, yna bydd eisiau dwy i dair blynedd i gario allan y gwaith. Oes raid imi fynd ymhellach.

Ar ôl derbyn newyddion adeiladol ar 30 Mawrth siom fawr oedd clywed yr union un swyddog, gwta dri diwrnod wedyn, gyda stori hollol wahanol bron. Ac i roi halen ar y briw pan ofynnais am gydweithrediad i drefnu cynllun stocio sy'n adlewyrchu'r broblem, yr ateb gefais gan un o swyddogion yr Asiantaeth oedd fod stoc y sewin ar y Seiont yn cynyddu yn dda. Mae yn breuddwydio dwi'n meddwl. Ond yn hollol adlewyrchu'r agwedd sydd wedi bod yn amgylchynu'r broblem yma ers dros ugain mlynedd.

Pwy yw'r Sgotwr coll?



Huw Deulyn Williams, Bethel; Aneurin Jones, Caernarfon; ? ? ? ; Robin Rowlands, Llanberis.



J.M. JONES
a'i Feibion
LLANRUG
Gwaith Coffaol

Ffon Gwaith
01286 672898

Cartref
01248 679089

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson) CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Carpedi, Llenni a Lloriau Pren

Chwaraeon

Rhedeg Mynydd.

Cyfres Nos Fawrth Joe Brown.

Yn union fel y llynedd, dechreuodd y gyfres mewn tywydd echrydus yn Y Fron, gyda gwynt mileinig yn hyrddio cenllysg miniog i wynebau'r rhedwyr wrth iddynt ddringo am gopa Moel Tryfan. Ond mentrodd dros bedwar ugain ohonynt ar y cwrs, gydag Alun Vaughan o'r Felinheli, ond yn wreiddiol o Lanberis, yn ennill ar y noson.

Ar y nos Fawrth ddilynol, mewn llawer gwell tywydd ar y Foel Lus ym Mhenmaenmawr, bu'n rhaid iddo fodloni ar y trydydd safle.

Ac yna'n ôl i'r Fron ar y drydedd nos Fawrth gogyfer â ras Mynydd Mawr. Daeth 91 o redwyr i gystadlu a bron i ddeugain o blant. Enillydd y brif ras oedd Mathew Roberts o Lanberis, a'r ferch gyntaf oedd Sarah Ridgway o Nant Peris.

Erbyn i'r rhifyn hwn eich cyrraedd bydd ras Pendinas, Nant Peris wedi ei chynnal hefyd, gyda Moel y Gest (Mai 8fed), a'r Gogarth (Mai 22ain) i ddilyn yn ystod y mis. Pedair ras fydd yn weddill wedyn i gwblhau'r gyfres, sef Aber (Mehefin 5ed), Y Garn, Rhyd-ddu (Mehefin 12fed), Tair Gallt Penmaenmawr (Mehefin 19eg) a'r diwedd glo ar Foel Eilio yn Llanberis ar Fehefin 26ain.

Yn yr un gyfres mae'r rasys ieuencid yn datblygu'n boblogaidd iawn, gyda chriw da o ffyddloniaid yn troi allan yn yr oedrannau dan 8, dan 10, dan 12 a dan 14. Ac fel y llynedd, mae'n datblygu'n frwydr gyffrous rhwng ieuencid bro'r "Eco", gweddill y sir a Bae Colwyn.

Ras Fron 4.

Gyda gweddillion eira yn luwchfeydd trwchus ar rannau o'r mynydd, niwl trwchus a gwynt gwlyb ac oer, doedd hi fawr o syndod mai cwta ddeugain o redwyr a fentrodd ar y Mynydd Mawr, a chymysg hollol fu'r canlyniadau.

TYMOR BODDHAOL

Dyna, mae'n siŵr, yw'r disgrifiad tecaf am berfformiadau ein timau pêldroed eleni.

Llanrug yw'r uchaf eu statws, a chafwyd sawl gem gyffrous, yn enwedig mewn cwpanau yn erbyn Hotspurs Caergybi. O ennill eu gemau mewn llaw gellir gorffen yn yr wyth uchaf. Boddhaol iawn a rhoi sylfaen dda ar gyfer y tymor nesaf. Llongyfarchiadau eto am safon y cyfleusterau ar Eithin Duon. Arwydd pendant o glwb â gorwelion a phwyllgor gweithgar.

Mae o hyd obeithion y gall Llanberis orffen yn ail yn yr Ail Adran. Cafwyd rhediad rhyfeddol yn y Gynghrair, a cholli o flaen torf o dros 500

yn rownd derfynol cwpan y gynghrair yn erbyn Glantraeth, y pencampwyr. Yma eto, o gadw'r criw ifanc gyda'i gilydd, mae sylfaen dda am y tymor nesaf.

Mae perfformiadau Bethel wedi gwella yn ddiweddar-ond nid y canlyniadau. Amser o eistedd lawr a ffurfio polisi pendant ar gyfer y dyfodol fydd hi yr haf yma.

Mae Waunfawr mor agos i ennill Gynghrair Arfon, ac esgyn. Bu'n frwydr agos rhyngddynt a'r Felinheli, a gobeithio caiff y ddau dîm ganiatâd i estyn i Gynghrair Gwynedd y tymor nesaf. Yma eto mae ambell i chwaraewr ifanc dawnus yn y ddwy garfan fydd yn siŵr o ddenu sylw clybiau o safon uwch.

Plismon o Ellesmere Port, sef Rob Grantham gipiodd y safle cyntaf a'r record, gan ddringo pedwar copa a theithio saith milltir mewn 68 munud. Ond heb fod ymhell iawn tu ôl roedd Iwan Morton o Gwm y Glo a Llifon Foulkes o Lanberis yn drydydd a phumed. Roedd Phil Jones o'r Waunfawr yn ail dros 50 oed.

Am y gweddill gwell peidio sôn, gyda rhai oedd yn flaenllaw ar y copa yn diflannu i'r niwl ac yn mynd ar goll yn llwyr! Mwy o ganolbwytio ar y map a'r cwmpawd y tro nesa!

Cofiwch hefyd am Ras Moel Eilio. Mae hysbyseb am y ras a'r ras hwyl yn y rhifyn hwn, gyda'r elw yn mynd at elusennau lleol.

Cwblhau'r Marathon des Sables.

Llongyfarchiadau calonnog i Ashley Wager am orffen y ras nodedig hon. Cyrhaeddodd adref i Frynrefail fel roedd yr "Eco" yn barod i fynd i'r Wasg. Bu'n brwydro dros 161 milltir mewn 6 diwrnod ar draws diffeithdir y Sahara ym Morocco. Gorffennodd Ashley yn 266ed safle mewn 39 awr a 26 munud. - a dim ond rhyw saith gant a hanner a gwblhaodd y ras. Gwych!

Gobeithiwn gael mwy o'i hanes yn y rhifyn nesaf. Roedd yn casglu arian tuag at Hosbis Dewi Sant, ac os oes rhywun eisiau cyfrannu, gallwch wneud hynny drwy gysylltu â <http://www.justgiving.com/Ashley-wager>.

MOEL EILIO

2012

Moel Eilio (725m)
Foel Gron (629m)
Foel Goch (609m)
Moel Cynghorion (674m)

+ RAS Hwyl / FUN Run

MAI 12 MAY, 2012
- 1:00pm
- 8m/3000ft

Tâl/Entry - Min £5.00
+ FREE massage/
Tylino am DDIM

Cofrestru / Registration
Gwesty Dolbadarn Hotel
Llanberis - 9.30am

Elw i gyd yn mynd tuag at
Ymchwil Cancer / ALL Proceeds
will go to Cancer Research

RAS Hwyl / FUN Run
Wedi ei threfnu gan / Organised by
Cymdeithas Tai Eryri

- Llanberis
- 11.00am

Tâl/Entry - Oedolion/Adults - £5
Plant/Child - £2

Elw y Ras Hwyl yn mynd tuag
at achosion i gofio am
Kevin Edwards a Ffion Haf Hughes

CANCER RESEARCH UK

TAI ERYRI

WALLES AIRS & CO. LTD
WALSAR AMBULANCE

Cefnogwyd gan / Supported by

TDL Joe Brown CREAD runcomm



SWIGOD A SEBON

SYCHLANHAU
Altro • Ailwnio
GWASANAETH
Casglu a Danfon
Gwasanaeth Golchi a Smwddio

54 STRYD FAWR LLANBERIS
(01286) 870088



Gwasanaeth Gwres a Plymio

Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

OLEW • NWY NATURIOL • LPG

Tel. (01286) 872328 • Mobile- 07798 746718



Braf o hyd yw ehangu gorwelion y campau yn y fro. Am y tro cyntaf dyma roddi sylw i'r gamp o Gwffio Cawell. Dyna yw camp benodedig Emma Barton o Fethel.

Cymhorthydd dosbarth yn Ysgol y pentref yw Emma, 26 oed, liw dydd. Mae un arall o staff yr Ysgol yn ymwneud â'r

Troi Llaw At Ferw'r Gawell

gamp o Focsio Cic. Dyma fan cychwyn diddordeb Emma pan gafodd wahoddiad gan ei chyd-aelod i fynychu campfa Chris Pritchard draw yng Nghaernarfon. Mae Chris yn uchel ei barch yn agweddau campau'r 'Martial Arts'.

Yn fuan cafodd Emma flys ar yr elfen o Focsio Cic a llwyddodd i gyrraedd lefel y Gwregys Porffor. Yn y gamp y bwriad yw sgorio pwyntiau drwy daro y gwrthwynebydd gyda'r llaw neu droed ar unrhyw ran o'r corf goruwch lefel y gwregys. Fel mewn bocsiio confensiynol rhoddir marciau allan o 10 i'r cystadleuwyr am bob rownd o ymladd.

Ar wahân i hyfforddi mae Chris

hefyd yn hyrwyddo gornestau, fel arfer ym Mae Colwyn o dan y pennawd 'Battle of the Bay'. Bu Emma yno yn gwyllo ei phrofiad cyntaf o Gwffio Cawell. Yr un yw'r rheolau a'r Cwffio Cic, ond bod yr ymladd yn digwydd tu fewn i gawell metel. Tebyg iawn i ambell ornest yn y WWE - ond heb y sgriptio amlwg!

Awgrymodd Chris bod Emma yn rhoi cynnig ar y gamp ac felly y bu. Ennill ei 'fffeit' gyntaf, ac edrych ymlaen i ymladd eto ar Fai Sed., draw ym Mae Colwyn. Efallai i chwi weld Emma ar y rhaglen 'Cwffio Cawell' a ddarlledwyd ar S4C yn ddiweddar. Pob lwc iddi yn ei gyrfa.

NEWID MEDDWL

Ydw, rydw i wedi newid fy meddwl. Rhaid cyflwyno technoleg fwyfwy ym myd y campau, ar y lefel uchaf. Allech chwi ddweud pwy enillodd y Grand National heb ail chwarae a rhewi'r 'ffrâm'? Bu'r ail-ddangos yn dyngedfennol mewn sawl gêm rygbi.

Criced yn syfrdanol, gyda'r pendil yn troi i gyfeiriad y bowliwr.

Y broblem yw'r bêl-droed. Ni chafwyd cyfnod tebyg! Gôl/dim gôl, cic gosb/dim cic gosb. Camsefyll... Mae'n fater dyrsgyda dyfodol rhai clybiau yn troi o gwmpas ambell ddyfarniad. Beth yw'r ateb? Dyna'r broblem. Ai ond i'r gêm 'broffesiynol' y dylid cyflwyno manteision y dechnoleg. Pwy sydd i dalu? Bydd prisiau tocyn yn siŵr o gynyddu. Faint o swyddogion fydd eu hangen. A welwn ni 'stopio'r cloc' mewn gêm bêl-droed? A fydd angen newid rheolau'r gêm? Fel y dywedodd yr emynydd:

Mae yma rhyw ddirgelion Rhy ddyrys ynt i ddyn, Ac nid oes all eu datrys... ..

Duw a helpo pwy bynnag fydd yn wynebu'r dasg o symleiddio'r penderfyniadau. Oes ateb?

Lois dros Gymru.

Llongyfarchiadau i Lois Regan o Ddeiniolen ar gael ei dewis i garfan pel-droed genethod dan 16 oed Cymru. Dim ond 13 oed yw Lois, ac felly, mae'n arwydd o'i gallu fel chwaraewr iddi gael ei dewis i garfan dan 16 oed.

Mae Lois yn chwarae pel-droed er pan oedd yn 5 oed; ac yn aelod o dimau cymysg Deiniolen hyd yr oedran dan 11 oed. Yna, ymunodd â thim genethod Llewod Llanrug, ac mae ar hyn o bryd yn chwarae i'r tim dan 14 oed. Mae hefyd yn chwarae i dim dan 14 oed a thim dan 16 oed Ysgol Brynrefail. Bydd tim dan 14 oed yr ysgol yn chwarae yn rownd derfynol Cwpan Ysgolion Cymru yn ystod y mis nesaf.

Cafodd ei phrofiad cyntaf o wisgo crys Cymru yn Nulyn yn ystod y mis diwethaf, ble cynrychiolodd ei gwlad mewn dwy allan o dair gêm mewn twrnameint rhyngwladol yno. Gwefr ychwanegol iddi oedd sgorio ei gôl gyntaf dros ei gwlad, a hynny ym muddugoliaeth Cymru o ddwy gôl i un yn erbyn Gweriniaeth Iwerddon.

Gwylwch yr enw! Mae dyfodol disglair ym myd pel-droed o'i blaen.

